Llwybrau Dysgu 14–19

# Yr Adolygiad o Ddarpariaeth Gydweithredol Leol yng Nghyfnod Allweddol 4

## Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Medi 2013

ISBN digidol 978 1 4734 0348 2
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19923

# Cynnwys

**Rhagair** ........ 1

**Crynodeb gweithredol** ........ 2
Arghymhellion ........ 4

**Pennod 1: Cyflwyniad a chyd-destun** ........ 6
1.1 Cefndir ........ 6
1.2 Cylch gorchwyl ........ 7
1.3 Dibyniaethau/synergeddau 14–19 ........ 7
1.4 Methodoleg ........ 7

**Pennod 2: Tystiolaeth** ........ 9
2.1 Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ........ 9
2.2 Ymchwil ac ystadegau ........ 9
2.3 Cyllid grant a rhwydweithiau rhanbarthol 14–19 ........ 15
2.4 Adolygiadau ........ 17
2.5 Fforymau cyfrwng Cymraeg ........ 20
2.6 Gwybodaeth am y farchnad lafur ........ 20
2.7 Pwyntiau'r cwricwlwm lleol ........ 21

**Pennod 3: Prif gasgliadau ac argymhellion** ........ 23
3.1 Canlyniadau dewis ehangach o gyrsiau ........ 23
3.2 Cydbwysedd rhwng cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol ........ 23
3.3 Pwyntiau'r cwricwlwm lleol ........ 26
3.4 Hygyrchedd cyrsiau mewn ardaloedd gwledig ac ysgolion llai/yr effaith ar ysgolion Cymraeg a dwyieithog ........ 26
3.5 Teithio gan ddysgwyr 14–19 ........ 27
3.6 Yr Adolygiad o Gymwysterau ........ 29
3.7 Effaith bosibl dileu cyllid 14–19 ar gynaliadwyedd ........ 30
3.8 Safbwyntiau dysgwyr ........ 33
3.9 Cydweithredu rhanbarthol ........ 33

**Atodiad A: Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen** ........ 35

**Atodiad B: Geirfa** ........ 36

**Atodiad C: Crynodeb o ariannu yn ôl math o weithgarwch drwy'r grant 14–19 ar gyfer 2013–14** ........ 39

**Atodiad D: Cysylltiadau 14–19 ar draws meysydd polisi** ........ 40

# Rhagair

Fel addysgwyr, rydym yn gweld llawer o newid a datblygiadau gydag amser ond byddai'n anodd enwi un sydd wedi cael effaith mor uniongyrchol ar fywydau, deilliannau addysgol a dewisiadau llwybr cymaint o blant yng Nghymru.

Rhoddodd polisi Llwybrau Dysgu 14-19 opsiynau a dewisiadau i bawb ac ni ellir anwybyddu ei effaith. Galluogodd i ni symud ymlaen fel cymdeithas gynhwysol i greu cyfleoedd nad oedd ar gael cynt a galluogi i unigolion lywio dyfodol i'w hunain a oedd yn cynnwys sylfeini addysgol cadarn.

Fel Grŵp, roeddem i gyd yn teimlo'r cyfrifoldeb enfawr o gymryd rhan yn yr adolygiad hwn a hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd am eu gonestrwydd, eu hangerdd a'u gwaith caled yn ystod y broses. Mae'n anodd cofio bywyd cyn 14-19, ond daeth yn amlwg yn gyflym bod ein hamgylchedd addysgol wedi esblygu bellach, a heb fychanu'r effaith y mae wedi'i gael ar blant Cymru, nawr oedd yr amser iawn i ystyried ein ffordd ymlaen – i adfywio ein dulliau.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u gwneud gyda'r ethos a wnaeth 14-19 mor llwyddiannus – mae pob plentyn yn cyfrif, mae gan bob plentyn wahanol sgiliau ac mae pob plentyn yn haeddu cyfle i gyflawni. Fodd bynnag, maent hefyd yn gorfod sicrhau bod gan ein myfyrwyr y cymwysterau sy'n ennyn parch yn genedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal ag yn lleol.

Credwn mai ansawdd y dewisiadau yn hytrach na nifer y cyrsiau sydd ar gael sy'n bwysig. Drwy leihau maint yr arlwy cwricwlwm yn CA4, rydym am wneud yr arlwy yn bosibl i'w darparu yn deg. Trwy gynnwys yn yr arlwy yr angen am o leiaf dri chwrs galwedigaethol, rydym yn dangos parch at ddysgu galwedigaethol a'n dealltwriaeth bod sgiliau'n cael eu haddysgu a'u dangos mewn mwy nag un ffordd.

Newidiodd y llwybrau dysgu 14-19 ddyfodol pobl ifanc, aeth i'r afael â thlodi a galluogodd fyfyrwyr i ffynnu a'n gobaith yw y bydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn yn ei alluogi i barhau i wneud hynny yn y gymdeithas newydd y mae wedi helpu i'w chreu.

**Claire Armitstead**

**Cadeirydd yr Adolygiad o Ddarpariaeth Gydweithredol Leol yng Nghyfnod Allweddol 4**

# Crynodeb gweithredol

Cafodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn ar ddarpariaeth gydweithredol leol yng CA4 ei gynnull rhwng mis Chwefror a Medi 2013 i ddatblygu ymrwymiad y Gweinidog Addysg a Sgiliau i adolygu'r penderfyniad i bennu 30 dewis fel yr isafswm o gyrsiau y dylid eu cynnig i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4).

Cadeiriwyd y Grŵp gan bennaeth ysgol uwchradd ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau lleol (ALlau), colegau, darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith, cyflogwyr, Gyrfa Cymru ac Estyn (rôl arsylwi) – a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr a oedd yn cyfrannu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dangosir yr aelodaeth lawn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Er bod yr adroddiad yn mynegi safbwyntiau a barn arbenigol aelodau'r Grŵp yn rhinwedd eu swyddi proffesiynol, mae'n cael ei ategu gan y dystiolaeth ar sail ystyriaeth a gyflwynwyd iddynt gan weithwyr proffesiynol y sector a swyddogion Llywodraeth Cymru o feysydd polisi amrywiol.

## Manteision dewis ehangach

Cyn mynd i'r afael â'r dasg oedd yn eu hwynebu, ystyriodd y Grŵp pa mor ddylanwadol oedd y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 wedi bod ers ei lansio yn 2006; a sut roedd y polisi hwnnw wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar drawsnewid darpariaeth addysgol ar gyfer myfyrwyr 14-19 oed yng Nghymru. Teimlai'r Grŵp ei bod yn bwysig peidio â gwerthfawrogi'r effeithiau cadarnhaol y mae'r dewis ehangach o gyrsiau ar y cyd â chymorth i ddysgwyr yn CA4 (elfennau allweddol y polisi Llwybrau Dysgu 14-19) wedi'u cael wrth gynorthwyo i ymgysylltu â dysgwyr ac wrth iddynt wireddu eu potensial.

Yn 2012, nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrth ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i effaith Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, bod llawer o'r data a oedd yn ymwneud ag effaith dewis ehangach yn amhendant. Edrychodd y Grŵp eto ar y data a chytunodd ei bod yn anodd olrhain achos ac effaith uniongyrchol rhwng dewis ehangach a gwell cyrhaeddiad. Fodd bynnag, gwelodd y Grŵp bod y tueddiadau trosfwaol mewn data cyraeddiadau (yn enwedig mewn perthynas â dyddiadau allweddol pan weithredwyd y polisi dewis ehangach) ac o brofiadau uniongyrchol a barn broffesiynol ar sail ystyriaeth gan aelodau'r Grŵp, fod dewis ehangach wedi bod yn fuddiol i ddysgwyr mewn gwirionedd ac wedi effeithio ar eu cyrhaeddiad a'u dilyniant.

Ystyriodd aelodau'r Grŵp y cynnydd a wnaed ers cyflwyno'r polisi o ran dewis ehangach, sy'n cynnwys mwy o fynediad ac argaeledd cyrsiau Cymraeg, a gwell cydweithredu rhwng darparwyr dysgu. Fodd bynnag, teimlwyd bod rhai meysydd lle mae cyfle o hyd i wella ansawdd ledled Cymru o ran profiadau dysgu CA4. Roedd y Grŵp yn cydnabod bod heriau gweithredol yn wynebu rhai ysgolion ac ardaloedd ALl wrth gynnig dewis ehangach. Daethant i'r casgliad fod lleihau isafswm y cyrsiau sy'n ofynnol i ffurfio cwricwlwm lleol, tra'n sicrhau bod elfennau gwerthfawr y polisi'n cael eu diogelu (e.e. darpariaeth alwedigaethol/cyfrwng Cymraeg), yn ffordd o ddarparu'r hyblygrwydd a'r cymorth sydd ei angen ar bob ysgol yng Nghymru i ganolbwyntio mwy ar ansawdd yr hyn a gynigir, yn hytrach nag ar nifer y cyrsiau sydd ar gael. Credai'r Grŵp y dylai hyn sicrhau nad yw prif egwyddorion y polisi'n cael eu colli wrth symud ymlaen ac, os rhywbeth, y gellir ei atgyfnerthu ymhellach wrth leihau'r her o ran darparu.

## Cysylltiadau â datblygiadau polisi eraill

Roedd y Grŵp yn ystyried bod y penderfyniad i adolygu'r arlwy cwricwlwm lleol yn CA4 yn amserol iawn; yn enwedig o ystyried y datblygiadau addysgol diweddar.

Wrth ddatblygu'r adolygiad hwn, teimlwyd ei bod yn bwysig ystyried newidiadau polisi a oedd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar neu oedd ar ddod sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ddarpariaeth gydweithredol leol yn CA4 er mwyn sicrhau na fyddai newidiadau arfaethedig yn y cyswllt hwn yn gwrthdaro â datblygiadau ehangach. Roedd gwell cydlyniant yn sbardun allweddol dros newid ac roedd y Grŵp yn cydnabod yr angen i addasu agweddau ar y polisi i adlewyrchu'r amgylchedd addysgol sy'n esblygu.

Ystyriwyd newidiadau a oedd ar fin digwydd a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar arlwy cwricwlwm lleol CA4, fel gweithredu argymhellion yr Adolygiad 14-19 o Gymwysterau (gan gynnwys y TGAU rhifedd newydd a Bagloriaeth ddiwygiedig Cymru). Edrychodd y Grŵp hefyd ar flaenoriaethau trosfwaol Gweinidogion: gwella safonau llythrennedd a rhifedd a chau'r bwlch rhwng tlodi a chyrhaeddiad. Ystyriwyd datblygiadau polisi sydd wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r targedau hyn, fel cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer disgyblion 5-14 oed a'r adolygiad o Asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, sydd ar waith, ac roedd y Grŵp yn fodlon nad oedd argymhellion arfaethedig yn gwrthdaro â'r agenda sylfaenol.

Ystyriodd y Grŵp hefyd opsiynau ar gyfer darpariaeth 14-19 yn y dyfodol a nododd gasgliadau Hill yn dilyn ei adolygiad o adolygiad gwasanaethau addysg o ddarpariaeth gwasanaethau addysg yn y dyfodol yng Nghymru. Ystyriwyd bod yr argymhellion yn ymwneud â chynyddu partneriaethau ysgolion (clystyrau caled, ffederaleiddio ysgolion) a threfnu gwelliannau i ysgolion gyda haen ranbarthol gryfach a mwy cyson, yn berthnasol dros ben. Roedd y Grŵp yn cydnabod y cyfle i'r haen ranbarthol gyfrannu fwy at sicrhau dull strategol o ddarparu 14-19 wrth symud ymlaen.

## Cyfleoedd a heriau

Wrth ystyried tystiolaeth roedd y Grŵp yn ymwybodol o'r setliadau cyllideb anodd iawn y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac ALlau weithredu oddi mewn iddynt ar hyn o bryd. Yn sgil hynny, canolbwyntiodd y Grŵp ar gyflwyno argymhellion sy'n realistig o ran gallu eu cyflawni yn ogystal â cheisio gwella darpariaeth cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr.

Roedd y broses adolygu yn gyfle i nodi meysydd y gellid eu darparu neu eu rheoli'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau nad oedd y cynnydd a wnaed ers cyflwyno'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn cael ei golli mewn amgylchedd o bwysau cyllidol. Credai aelodau'r Grŵp ei bod yn bwysig bod yn eglur ynglŷn â pha weithgareddau y dylid eu cyllido o'r grant 14-19 a pha weithgareddau ddylai fod yn gysylltiedig ag adnoddau polisi a rhaglen eraill wrth symud ymlaen. Cafodd yr ymarfer hwn ei wella o ystyried esblygiad cyllid addysgol a'r cynnydd mewn dirprwyo lleol i ysgolion ers cyflwyno'r grant 14-19 am y tro cyntaf; ar ddealltwriaeth bod mecanweithiau mwy priodol ar waith yn awr ar gyfer cyllido gweithgareddau penodol na grant 14-19 annibynnol.

Derbyniodd y Grŵp yr angen i resymoli'r grant 14-19 at ddibenion cynaliadwyedd, ond ar ôl dadansoddi gweithgarwch presennol, ystyriwyd hefyd bod angen sicrhau bod cydgysylltwyr 14-19 rhanbarthol yn glir ynglŷn â blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd, tra'n cael rhywfaint o hyblygrwydd o ran cynllunio. Dylai hyn hwyluso dull mwy cyson o ddarparu ledled Cymru a sicrhau hefyd bod gwasanaethau rheng flaen i ddysgwyr yn cael eu diogelu. Roedd aelodau'r Grŵp o'r farn y dylai'r gwasanaethau hyn gynnwys darparu cyrsiau ar gyfer myfyrwyr 14-16 oed, yn arbennig cyrsiau galwedigaethol, a gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymgysylltu dysgwyr yn y system addysg.

Roedd y Grŵp yn rhoi pwys mawr ar gymorth o ansawdd i ddysgwyr mewn amgylcheddau dysgu ac yn cydnabod bod amddiffyn yr elfen hon o'r grant 14-19 yn cynnig cyfle i'r agenda 14-19 gysoni'n well a chyfrannu at yr agenda ehangach o waith atal pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant" (NEET), sy'n cael ei ddatblygu yn sgil gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Wrth bennu'r lefelau isafswm cyllid a fydd yn ofynnol yn y dyfodol, mae'r Grŵp yn bwriadu sicrhau pontio di-dor i'r trefniadau newydd, gan amddiffyn elfennau hanfodol. Ystyriwyd bod yr angen am gymorth ariannol parhaus ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn cyflawni cyrsiau yn rhan allweddol o hyn. Tra'n ymwybodol o'r angen am arbedion effeithlonrwydd wrth symud ymlaen, credai aelodau'r Grŵp y bydd angen rhai adnoddau parhaus ar gyfer darpariaeth gydweithredol leol yn CA4, y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael drwy gyllid craidd i ysgolion, hyd yn oed os derbynnir y newidiadau arfaethedig i'r Mesur.

## Argymhellion

Mae'r Grŵp yn cymeradwyo'r camau canlynol a argymhellir i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau er mwyn i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â nhw mewn cydweithrediad â chonsortia addysg rhanbarthol, cynllunwyr cwricwlwm lleol a darparwyr dysgu 14-19:

1 Dylid cyflwyno rheoliadau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar fyrder er mwyn lleihau'r isafswm o gyrsiau sy'n ofynnol i ffurfio arlwy cwricwlwm lleol i 25.

2 Dylai rheoliadau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gynnwys isafswm o dri chwrs galwedigaethol sy'n ofynnol i ffurfio arlwy cwricwlwm lleol. Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylid monitro effaith yn agos a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Estyn i werthuso ansawdd a pherthnasedd arlwy cwricwlwm lleol mewn sampl o ysgolion.

3 Gan fod y system sgorio pwyntiau sydd wedi'i chynnwys ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 bellach wedi ateb y diben ac nad yw'n cyfrannu mwyach at y broses o gynllunio cwricwlwm lleol yn ymarferol, dylid defnyddio Rheoliadau newydd i ddileu'r gofyniad hwn yn CA4 ac ôl-16 cyn gynted â phosibl.

4 Bydd angen i elfen wedi'i neilltuo o'r cyllid ar gyfer cyrsiau 14-19 cyfrwng Cymraeg fod yn ei lle a bydd angen amddiffyn darpariaeth deg.

5 Dylid sicrhau dulliau mwy cyson rhwng ALlau a ledled rhanbarthau o ran sut y rheolir ac y cyllidir cludiant i fyfyrwyr cwricwlwm lleol yn ystod y diwrnod ysgol, gan gynnwys rhannu modelau arferion da gyda'r nod o leihau'r gwariant ar gludiant.

6 Dylai ysgolion a cholegau wneud mwy o ddefnydd o atebion amserlennu, athrawon peripatetig, a rhith-amgylcheddau dysgu sy'n esblygu er mwyn gostwng costau teithio a chostau cysylltiedig dysgwyr.

7 Dylid datblygu cymwysterau IVET (L1 a L2) dwy haen alwedigaethol cyffredinol o fewn neu ar draws sectorau drwy'r fframwaith rhanddeiliaid Adolygiad o Gymwysterau ac mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr diwydiant a sefydliadau dyfarnu, er mwyn darparu sylfaen opsiynau ehangach ar gyfer IVET yn CA4 a hwyluso dilyniant yn well i ddysgu ôl-16 mewn cyd-destun galwedigaethol (CVET).

8 Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu ehangach o gwmpas newidiadau 14-19, gan gynnwys cysylltedd ar draws datblygiadau polisi eraill yr Adran Addysg a Sgiliau fel newidiadau i gymwysterau galwedigaethol, fel bod gan yr holl randdeiliaid ddealltwriaeth glir o'r synergeddau a'r rhyngweithio rhwng datblygiadau polisi addysgol cyfredol.

9 Wrth ddatblygu'r dull IVET yn CA4, dylid cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y trefniadau categoreiddio cymwysterau er mwyn sicrhau bod cymwysterau priodol sy'n tystio i gymwyseddau cyffredinol (e.e. hylendid bwyd sylfaenol) yn gallu cael eu hastudio gan, a'u cyllido ar gyfer, dysgwyr CA4.

10 Er mwyn adlewyrchu esblygiad cyllidebau ysgolion ers cyflwyno grantiau 14-19, er enghraifft y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (SEG) neu'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG), dim ond y costau ar gyfer hyfforddi staff sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth anogwyr dysgu y dylid eu cynnal drwy'r cyllid 14-19. Dylid cysoni costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaeth anogwyr dysgu o fewn ffrydiau cyllid ehangach i ysgolion.

11 Gan symud ymlaen, dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau pontio a fyddai'n symud tuag at gysoni'r grant 14-19 ar gyfer darpariaeth CA4 i ffrydiau cyllid eraill ar lefel ranbarthol, gan ystyried yr argymhellion o'r adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, a gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas â chostau gweinyddu oherwydd arbedion maint.

12 O ran dysgwyr ôl-16 sy'n dechrau rhaglenni astudio o fis Medi 2014 ymlaen, dylai'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gweithgareddau, gan gynnwys darpariaeth cyrsiau (sy'n cael cymhorthdal drwy'r grant 14-19 ar hyn o bryd) gael eu talu'n llwyr gan y system cyllido ôl-16 newydd.

13 Dylai trefniadau pontio a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer 2014-14 i sicrhau bod y newidiadau i bolisi a threfniadau 14-19 yn cael eu gweithredu, tra'n amddiffyn darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny sydd eisoes yn cyflawni cyrsiau, gydag isafswm cyllid o £10 miliwn. Ar gyfer 2015-16 a thu hwnt, gellid pennu £8 miliwn fel yr isafswm cyllid wrth i drefniadau newydd wedi'u cysoni gael eu rhoi ar waith.

14 Llywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chydgysylltwyr rhwydweithiau rhanbarthol ac arweinwyr consortia yn ystod y 12 mis nesaf i ddatblygu rôl y rhanbarthau o ran rheoli darpariaeth 14-19 a chyllid cysylltiedig mewn ffordd fwy cadarn a chyson, gan gynnwys paratoi canllawiau 14-19 clir diwygiedig ar gyfer rhanddeiliaid.

# Pennod 1: Cyflwyniad a chyd-destun

## 1.1 Cefndir

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i drawsnewid darpariaeth ar gyfer myfyrwyr 14 i 19 oed yn dilyn cyhoeddi “Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith” yn 2006. Y nod oedd sicrhau bod:

> *‘95% o’r bobl ifanc, erbyn iddynt fod yn 25 oed, … yn barod am gyflogaeth dra medrus ac/neu addysg bellach neu uwch erbyn 2015.’*[1]

Mae’r fframwaith Llwybrau Dysgu 14-19 a gyhoeddwyd yn 2006[2] yn cynnwys chwe elfen allweddo y gellir eu rhannu i ddau gategori unigryw: darpariaeth i ddysgwyr a chymorth i ddysgwyr. Er mwyn sicrhau bod y polisi’n cael ei weithredu’n gyson, mae ei egwyddorion sylfaenol wedi’u cynnwys mewn fframwaith cyfreithiol – Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (y cyfeirir ato o hyn allan fel ‘y Mesur’).[3]

Un o’r elfennau allweddol yn y categori darpariaeth dysgwyr yw ‘dewis ehangach a hyblygrwydd rhaglenni a ffyrdd o ddysgu’. Roedd y gofyniad cwricwlwm lleol cyfredol o 30 dewis ar gyfer CA4yn destun ymgynghoriad yn ystod datblygiad y Mesur. Cafodd y Mesur ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Mawrth 2009 a’i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn ei Chyngor ar 13 Mai 2009.

Mae’r Mesur yn ffordd o sbarduno gweithrediad Llwybrau Dysgu 14-19, ac mae wedi sicrhau bod pob dysgwr 14-19 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn gallu dewis o isafswm o 30 o gyrsiau, ac mae’n rhaid i bump o’r rhain fod yn rhai galwedigaethol.

Mae’r Mesur hefyd yn sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad i wasanaethau cymorth i ddysgwyr a fydd yn eu cynorthwyo i oresgyn unrhyw rwystrau i’w dysgu. Drwy ddarparu mynediad i bobl ifanc i ystod eang o gyrsiau a gwasanaethau cymorth i ddysgwyr, mae disgwyl i:

- gyrhaeddiad addysgol godi ar lefel CA4 ac ôl-16;
- gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy’n gadael addysg lawn amser heb unrhyw gymwysterau;
- cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy’n mynd ymlaen i ddysgu pellach;
- gostyngiad yn nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy’n NEET.

Cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc [4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i weithredu’r Mesur yn hydref 2011. Y diben oedd craffu ar y ddeddfwriaeth ac asesu pa mor llwyddiannus yr oedd wedi’i gweithredu ledled Cymru.

Roedd adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012, yn cynnwys deg argymhelliad, gan gynnwys:

> *‘Dylai’r Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygu’r penderfyniad i bennu 30 cwrs (gan gynnwys pum cwrs galwedigaethol) yn isafswm y cyrsiau sydd eu hangen i lunio cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4. Fel rhan o’i adolygiad, dylai’r Gweinidog werthuso unrhyw ganlyniadau anfwriadol i gael dewis ehangach o gyrsiau; y cydbwysedd rhwng cyrsiau academaidd a chyrsiau galwedigaethol; a’r effaith ar ysgolion llai ac ysgolion gwledig.’’*[5]

---

[1] Y Wlad sy’n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith 2006
[2] Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19 2006
[3] Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009
[4] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[5] Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009) - Adroddiad

Dywed yr adroddiad hefyd bod llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn anghyson a mynegodd rhai tystion i'r ymchwiliad bryderon ynghylch hygyrchedd ac effaith dewis ehangach. Ni chododd y Pwyllgor unrhyw faterion mewn perthynas ag arlwy'r cwricwlwm ôl-16.

## 1.2 Cylch gorchwyl

Diffiniwyd cylch gorchwyl y Gweithgor Gorchwyl a Gorffen hwn fel adolygu a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar arlwy cwricwlwm lleol CA4. Yn benodol, gofynnwyd i'r Grŵp wneud argymhellion ar nifer y dewisiadau yn y dyfodol, gan ystyried:

- unrhyw ganlyniadau anfwriadol o roi dewis ehangach o gyrsiau;
- y cydbwysedd rhwng cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol;
- hygyrchedd cyrsiau mewn ardaloedd gwledig a'r effaith ar ysgolion llai a gwledig;
- yr effaith ar ysgolion Cymraeg a dwyieithog;
- gwneud yn gydnaws â'r Adolygiad Trafnidiaeth 14-19 a'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19;
- effaith bosibl diwedd y cyllid grant 14-19 ar gynaliadwyedd;
- safbwyntiau dysgwyr.[6]

Fel rhan o'r adolygiad, gofynnwyd hefyd i'r Grŵp ystyried dilysrwydd y gofyniad isafswm pwyntiau ar gyfer arlwy'r cwricwlwm lleol ar gyfer CA4 ac ôl-16. Yn CA4, mae isafswm o 780 o bwyntiau ar hyn o bryd, sy'n gorfod cynnwys o leiaf 260 o bwyntiau o gyrsiau galwedigaethol ac ar lefel ôl-16 y gofyniad w isafswm o 1600 o bwyntiau.

## 1.3 Dibyniaethau/synergeddau

Nodwyd meysydd polisi â chysylltiadau â'r cyfnod addysg 14-19 er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu hystyried mewn cyd-destun ehangach. Cydnabuwyd hefyd fod y map (gweler Atodiad D) yn gymorth i ddatblygu polisi dilynol wrth ystyried cysondeb â pholisïau eraill, yn ogystal â sefydlu pa feysydd yr oedd angen ymgynghori'n uniongyrchol arnynt neu eu hysbysu ynglŷn â newid.

## 1.4 Methodoleg

Cynhaliwyd chwe chyfarfod o'r Grŵp. Bu'n ystyried papurau a rith-ddosbarthwyd, 'y tu allan i'r pwyllgor' hefyd.

Swyddogion o Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru oedd ysgrifenyddiaeth y grŵp. Roedd gan yr ysgrifenyddiaeth rôl o sicrhau bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei rhannu gyda'r Grŵp i lywio trafodaethau, comisiynu ymchwil ychwanegol ar ran y Grŵp pan welwyd bylchau mewn tystiolaeth, a darparu cymorth gweinyddol a logistaidd ar gyfer cyfarfodydd.

Chwiliodd y Grŵp am dystiolaeth o ffynonellau amrywiol a defnyddiwyd data ystadegol amrywiol i lywio'r drafodaeth. Darparwyd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Grŵp gan gynrychiolwyr o:

- Rhwydwaith 14-19 Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Rhwydwaith 14-19 Rhanbarthol Canol De Cymru
- Rhwydwaith 14-19 Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru
- Rhwydwaith 14-19 Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (Llywodraeth Cymru)
- Prosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (Llywodraeth Cymru)

[6] Ychwanegwyd y ddau bwynt diwethaf gan y Grŵp ar ôl cytuno arnynt gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

- Uned Datblygu'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru)
- Adolygu Cymwysterau (Llywodraeth Cymru)
- Asesu ac Adolygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru)
- BMG Research[7]

Cyflwynir y ddogfen hon, sy'n cynrychioli adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i'w hystyried.

[7] Gwefan BMG Research

# Pennod 2: Tystiolaeth

Pennodd y Grŵp feysydd amlwg ar gyfer addysg CA4 a darparwyd tystiolaeth er mwyn llywio trafodaethau. Mae crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp wedi'i chynnwys yn y bennod hon.

## 2.1 Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Nododd y Grŵp yr adroddiad o'r ymchwiliad uchod a bod aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid cyn penderfynu ar y deg argymhelliad yn eu hadroddiad.

Yn yr adroddiad, nid yw'r Pwyllgor yn herio'r syniad bod gweithredu'r Mesur wedi arwain at fwy o ddewis ar gyfer dysgwyr, yn enwedig nifer y cyrsiau galwedigaethol a gynigir, gan i hyn gael ei gadarnhau gan dystion. Fodd bynnag, cyfeirir yn yr adroddiad bod tystiolaeth wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor ynglŷn â'r cyfle i bob disgybl i elwa ar ddewis ehangach ac i ba raddau y mae rhwystrau ymarferol yn cyfyngu ar ddewis rhai dysgwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn archwilio'r berthynas rhwng cyllid a chynaliadwyedd ac yn crynhoi pryderon gan gydgysylltwyr rhwydwaith 14-19, a ddywedodd:

> *"we need to move towards sustainability, but if we add transport costs to the costs of the provision of vocational courses, then that can be inhibiting or even prohibitive."*[8]

Cynghorwyd y Grŵp mai'r argymhelliad i adolygu gofynion cwricwla lleol CA4 yw un o'r rhai mwyaf sylfaenol yn yr adroddiad a bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn derbyn yr argymhelliad hwn, gan nodi:

> *"Although we have still not seen the full impact of the Learning Pathways policy I am keen that all Welsh Government policies are reviewed regularly to ensure that they are benefitting learners. I am therefore accepting a review of the local curriculum at Key Stage 4 in relation to the minimum number of* courses offered*. I remain fully committed to ensuring that young people are offered a local curriculum which provides access to a wide range of courses that allows them to follow courses which meet both their individual needs and interests"*[9]

## 2. 2 Ymchwil ac ystadegau

### *Ymchwil Gymdeithasol*

Yn gynnar yn yr adolygiad, derbyniodd y Grŵp ddarnau perthnasol o Ymchwil Gymdeithasol 14-19 gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth gyfredol o Gymru yn cynnwys:

- Opsiynau Dysgu ar gyfer Myfyrwyr 14-19 Oed (2007)[10] – astudiaeth a oedd yn ceisio archwilio canfyddiadau pobl ifanc, rhieni a chynrychiolwyr rhwydwaith 14-19 mewn perthynas â pholisi Llwybrau Dysgu Llywodraeth Cymru. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y graddau yr oedd rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o elfennau'r Llwybrau Dysgu, a'u hagweddau atynt.
- Gwerthuso'r Mesur Dysgu a Sgiliau (2009)[11] – astudiaeth a oedd yn canolbwyntio ar effeithiau tebygol y Mesur ar Lwybrau 14-19 ac yn asesu i ba raddau y mae dewis ehangach yn cael ei sicrhau, gan ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phartneriaethau mewn ardaloedd gwledig.

---

[8] Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009) - Adroddiad
[9] Ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor
[10] Opsiynau Dysgu ar gyfer Myfyrwyr 14-19 Oed (2007)
[11] Gwerthuso'r Mesur Dysgu a Sgiliau (2009)

- Llais Dysgwyr (2009)[12] – yr arolwg dysgwyr ysgol sy'n crynhoi safbwyntiau dysgwyr ar gymhelliant, darpariaeth gydweithredol a'r rhesymau am beidio â gallu astudio pynciau dewis cyntaf.
- Estyn: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19 (2008)[13] – nododd yr adolygiad y graddau mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhwystr i ddarparu Llwybrau Dysgu 14-19.
- Estyn: Cynnydd wrth weithredu dewis ehangach (2010)[14] – archwiliodd yr adolygiad gynnydd ond nododd ddiffygion hefyd.

Y prif ganfyddiadau a nododd y Grŵp oedd:

- credai pobl ifanc bod cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi pobl gyda chymwysterau academaidd (Opsiynau Dysgu ar gyfer Myfyrwyr 14-19 Oed 2007);
- nid oedd ysgolion gyda chyfraddau cyrhaeddiad uchel yn ymgysylltu'n llawn bob tro â Llwybrau Dysgu 14-19 (Gwerthuso'r Mesur Dysgu a Sgiliau 2009);
- yn aml nid oedd disgyblion yn gwahaniaethu rhwng cyrsiau academaidd a galwedigaethol – roeddent yn cael eu hystyried yn opsiynau ar y ddewislen (Gwerthuso'r Mesur Dysgu a Sgiliau 2009);
- os yw galw disgyblion am gyrsiau'n cael ei ddiwallu, mae cymhelliant a boddhad yn cynyddu (Llais Dysgwyr 2009);
- roedd disgyblion a oedd yn astudio ar fwy nag un safle yn llai tebygol o fod am fynd i flwyddyn 12 yn yr ysgol honno na mynychu coleg AB (11% o'i gymharu â 33% o ddysgwyr lle'r oedd gwersi i gyd ar un safle (Llais Dysgwyr 2009);
- y prif reswm am beidio â gallu astudio pynciau dewis cyntaf yw materion amserlennu (Llais Dysgwyr 2009);
- mae nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn Gymraeg yn gyfran fechan o'r hyn sydd ar gael yn Saesneg (Estyn: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19 2008);
- nid oes digon o werthuso ansawdd, deilliannau, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd darpariaeth (Estyn: Cynnydd wrth weithredu dewis ehangach 2010);
- mae amrywiaeth a nifer y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr mewn gwahanol ardaloedd yn amrywio (Estyn: Cynnydd wrth weithredu dewis ehangach 2010);
- mae yna ormod o gyrsiau sy'n gyfyngedig o ran ymarferoldeb oherwydd eu bod yn denu niferoedd isel o ddysgwyr yn unig a/neu sy'n dyblygu darpariaeth sydd ar gael mewn mannau eraill yn yr un dalgylch (Estyn: Cynnydd wrth weithredu dewis ehangach 2010).

Roedd y Grŵp yn credu bod deall profiadau dysgwyr CA4 mewn ysgolion yn bwysig iawn wrth wneud argymhellion mewn perthynas â'r arlwy cwricwlwm lleol. O'r herwydd, gofynnodd y Grŵp i safbwyntiau dysgwyr gael ei hychwanegu at y cylch gorchwyl ac i ymchwil gael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu ei hystyried yng nghyd-destun yr adolygiad.

## *Arlwy a'r defnydd o'r cyrsiau*

Cynigiwyd dadansoddiad o ddata cwricwlwm i'r Grŵp ar y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau cwricwlwm lleol.


---

[12] Llais Dysgwyr2009
[13] Estyn: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19 (2008)
[14] Estyn: Cynnydd wrth weithredu dewis ehangach (2010)

Mae ysgolion yn cofnodi eu gwybodaeth am gwricwlwm lleol CA4 ar Gyrfa Cymru Ar-lein: mae hyn yn cynnwys eu harlwy cwricwlwm lleol a gwybodaeth am y cyrsiau sy'n cael eu darparu wedi hynny, ynghyd â niferoedd y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau.

Awgrymodd cymhariaeth o gyfartaledd nifer y dewisiadau a gynigir a'r rhai a ddilynir gan ddysgwyr ac sy'n cael eu darparu bod gwahaniaeth rhyngddynt, ond mod y mwyafrif llethol o ddewisiadau yn cael eu cynnal a'u dilyn gan ddysgwyr. Mae'r tabl isod yn dangos bod cyfartaledd nifer y dewisiadau a ddarperir wedi cyrraedd yr isafswm arlwy gofynnol o 30 dewis yn gyson, a rhagori ychydig arno.

**Arlwy cyrsiau cwricwlwm lleol CA4 a'r nifer mae dysgwyr yn eu dilyn**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata arlwy a chyrsiau sy'n cael eu dilyn CA4 Gyrfa Cymru Ar-lein, Llywodraeth Cymru, 2013

Cynhaliwyd dadansoddiad o gyfartaledd nifer y cyrsiau a gynigir gan ALlau. Dengys data Gyrfa Cymru Ar-lein bod cyfartaledd nifer y dewisiadau a gynigiwyd mewn ardaloedd ALl yn 2012/13 yn amrywio o 31.8 ym Mhowys i 42.7 yn Wrecsam; gyda chyfartaledd o 36.7 o gyrsiau'n cael eu cynnig yng Nghymru. O ran nifer y cyrsiau hynny sy'n cael eu dilyn, roedd y cyfartaledd yn amrywio o 26.1 cwrs yng Nghaerffili i 37 ym Mlaenau Gwent; gyda chyfartaledd o 32.2 o gyrsiau'n cael eu dilyn yng Nghymru.

O ran cynlluniau 2013/14, mae ysgolion ledled Cymru wedi cynnig 37 cwrs ar gyfartaledd; gyda chyfartaledd ALlau yn amrywio o 33.5 yng Ngheredigion i 42.8 yn Wrecsam. Roedd data o gyrsiau a oedd yn cael eu dilyn gan ddysgwyr gan Gyrfa Cymru Ar-lein ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14 yn dal i gael ei rhoi ar ffurf derfynol pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ac nid yw ar gael, ond rhagwelir patrwm tebyg lle bydd y mwyafrif o gyrsiau a gynigir yn cael eu dilyn.

Lle cynigir cwrs ac nad yw'n cael ei gynnal yn y pen draw, y rheswm am hyn fel arfer yw materion amserlennu neu lefelau is o ddysgwyr yn dewis yr opsiwn hwn, gan nad yw pynciau gyda nifer isel o ddysgwyr yn cofrestru i'w gwneud yn ymarferol yn ariannol fel arfer. Adroddwyd y gall teithio i ddilyn cyrsiau fod yn rhwystr i rai dysgwyr wrth ddewis eu pynciau, ond mae costau teithio o'r fath hefyd yn ffactor wrth ystyried pa mor ymarferol yw cynnal cwrs.


## *Data Perfformiad Allweddol*

Rhannwyd tueddiadau a dangosyddion perfformiad allweddol 14-19 gyda'r Grŵp ac roedd rhai o'r ystadegau o ddiddordeb yn cynnwys:

- mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Lefel 2 (L2) cynhwysol[15] yn cynyddu o 47.2 yn 2009 i 50.5 yn 2012;

[15] Mae'r trothwy L2 cynhwysol yn gyfwerth â 5 A* i C TGAU, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg, gan gynnwys galwedigaethol.


- mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r L2 cynhwysol gyda chymwysterau TGAU yn unig wedi gostwng rhywfaint o 48.3 yn 2011 i 47.9 yn 2012;
- mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r L2 cynhwysol gyda chymwysterau nad ydynt yn TGAU wedi bod yn cynyddu; o 0.8 yn 2009 i 2.6 yn 2012.




Ffynhonnell: Ystadegau ysgolion (Llywodraeth Cymru)


Rhannwyd cymhariaeth â Lloegr o ganran y dysgwyr a oedd yn cyflawni L2 gyda'r Grŵp a nodwyd bod y lefel cyrhaeddiad yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru, gyda chynnydd sylweddol ar ôl y cyflwyno'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 (2006). Nodwyd hefyd bod y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng Cymru a Lloegr wedi lleihau'n ddiweddar i 9.2 pwynt canran.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r mesur L2 cynhwysol wedi bod yn cynyddu, ac mae elfen alwedigaethol cymwysterau yn L2 cynhwysol yn cynyddu, sy'n arwain at y dybiaeth bod ehangu cymwysterau galwedigaethol yn cyfrannu at lefelau uwch o gyrhaeddiad.





Ffynhonnell: Ystadegau ysgolion (Llywodraeth Cymru)

Nododd y Grŵp hefyd fod bod canran yr ymgeiswyr Lefel 1 (L1) wedi gostwng rhywfaint ers cyflwyno'r Mesur yn 2009, ond bod canran yr ymgeiswyr L2 wedi cynyddu rhywfaint. Mae'r defnydd parhaus o gyrsiau L1 yn bwysig i sicrhau bod cyrsiau priodol ar gael i ddysgwyr sydd angen lefel is. Fodd bynnag, mae'r nifer cynyddol sy'n cyflawni cyrsiau galwedigaethol L2 yn dangos bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar yr elfen alwedigaethol ac ar ddilyniant dysgwyr.




Ffynhonnell: Ystadegau ysgolion (Llywodraeth Cymru)

Gwnaed dadansoddiad o arlwy cwricwlwm lleol CA4 yn 2011/12 er mwyn asesu a oedd unrhyw wahaniaeth amlwg yn natur y cyrsiau a gynigiwyd rhwng pynciau 'traddodiadol' a phynciau eraill, ar sail lefel cymhwysedd i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim (FSM) yr ysgolion.





Ffynhonnell: data arlwy Gyrfa Cymru Ar-lein, 2011/12

Dangosodd y data cyflawn diweddaraf sydd ar gael nad oedd unrhyw gydberthynas amlwg rhwng nifer y pynciau 'traddodiadol' a gynigir mewn ysgolion yn CA4 a lefel cymhwysedd i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim (FSM) yr ysgol. Fodd bynnag, diddorol oedd gweld bod natur yr arlwy o gyrsiau 'anhraddodiadol' eraill yn yr ysgolion hynny lle'r oedd cymhwysedd i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim yn uchel yn dangos bod dewis ehangach yn cael ei gynnig yn yr ysgolion hynny, gyda


chyfartaledd o 5 pwnc anhraddodiadol ychwanegol rhwng y chwartelau uchaf ac isaf. Awgryma hyn bod dewis ehangach yn cael ei gynnig i ryw raddau mewn cymunedau mwy difreintiedig.

Mae dadansoddiad o lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion lle mae'r cymhwysedd i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim yn isel (hyd at 10% o ddysgwyr yn gymwys) yn dangos bod canran y dysgwyr sy'n cyflawni A* - C ar L2 wedi cynyddu ychydig ers cyflwyno'r Mesur yn 2009. I'r gwrthwyneb, mewn ysgolion gyda'r gyfran uchaf o gymhwysedd i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim (dros 30% yn gymwys), mae'r lefelau cyrhaeddiad wedi gostwng ryw ychydig. Mae hyn yn awgrymu, er bod rhai ysgolion mewn cymunedau mwy difreintiedig yn cynnig dewis ehangach, ac y gall fod deilliannau cadarnhaol yn gysylltiedig â hyn yn arbennig o ran ymgysylltu, cyrhaeddiad L1, a datblygiad llythrennedd a rhifedd, nid yw'n cael effaith amlwg ar gyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr A*-C ar L2 hyd yma.




Ffynhonnell Data Gyrfa Cymru Ar-lein, Data cyrhaeddiad ystadegau ysgol (Llywodraeth Cymru)

Mae nifer y bobl ifanc16-18 oed sydd yn NEET wedi amrywio rywfaint o flwyddyn o flwyddyn, ond mae wedi aros oddeutu 10-12% yn gyson. Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr 16-18 oed mewn addysg lawn amser wedi cynyddu o 57.6% i 66.4% gydol y cyfnod. Gallai hyn fod yn sgil yr agenda ymgysylltu, gyda'r mynediad i ddewis ehangach o bynciau yn CA4 yn annog rhai dysgwyr i aros ym myd addysg. Efallai bod ffactorau eraill sydd wedi arwain at gynnydd yn y bobl ifanc 16-18 oed mewn addysg lawn amser, fel diffyg cyfleodd cyflogaeth. Mae'r ystadegau'n cefnogi'r casgliad hwn gan fod cyfran y bobl ifanc 16-18 oed mewn cyflogaeth wedi gostwng, yn enwedig ers 2007, sy'n awgrymu bod cysylltiad â'r dirwasgiad.




Ffynhonnell, ONS, HESA, Llywodraeth Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

## 2.3 Cyllid grant a rhwydweithiau rhanbarthol 14–19

### *Cyllid*

Darperir cyllid grant Llwybrau Dysgu 14-19 gan Lywodraeth Cymru i ALlau i ddatblygu'r polisi, gan gynnwys bodloni gofynion y Mesur. Mae'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol ALl wedi penodi awdurdodau arweiniol sy'n cydgysylltu datblygiad Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Rhanbarthol blynyddol. O fewn y Cynlluniau hyn, mae pob consortiwm rhanbarthol yn nodi sut maent yn defnyddio eu dyraniadau cyllid grant dangosol i ddatblygu Llwybrau Dysgu 14-19 yn eu rhanbarthau unigol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried dyraniadau grant Llwybrau Dysgu 14-19 fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol; a £15.386 miliwn yw'r gyllideb ar gyfer 2013-14. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 29% dros y tair blynedd a ddangosir isod.

| Blwyddyn Ariannol | Grant 14-19 | Gostyngiad o'r flwyddyn ariannol flaenorol |
|---|---|---|
| 2011-12 | £21.14m | 3% |
| 2012-13 | £17.17m | 19% |
| 2013-14 | £15.39m | 10% |

Er yn destun amrywiadau blynyddol, dosrennir gwariant 2013-14 yn fras fel a ganlyn:

- 69% - Darpariaeth Cyrsiau
- 13% - Anogwyr Dysgu
- 9% - Cludiant
- 9% - Gweinyddu

Gweler Atodiad C am ddadansoddiad Cymru gyfan manylach o wariant fesul math o weithgarwch.

### *Tystiolaeth gan gydgysylltwyr rhwydwaith 14-19*

I raddau helaeth, mae'r dystiolaeth ystadegol yn adran 2.2 yn rhoi sylwedd i'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp gan y cydgysylltwyr rhwydwaith rhanbarthol 14-19. Adroddwyd bod gwelliannau wedi bod ar y cyfan yn erbyn y dangosyddion perfformiad ers cyflwyno'r Mesur.

Crybwyllodd rhai o'r cydgysylltwyr rhwydwaith bod gostyngiadau lleol yn nifer y bobl ifanc 16-18 oed a oedd yn troi'n NEET wedi galluogi mwy o bobl ifanc i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a gwaith; a bod gostyngiadau o'r fath yn cynrychioli arbedion sylweddol ym mhwrs y wlad, ar sail ymchwil gan Brifysgol Efrog (2010) a nododd bod cyfartaledd y gost oes i gymdeithas o berson ifanc yn dod yn NEET yn 16 oed yn Lloegr yn 2008 yn £56,300 yr unigolyn.[16] Fodd bynnag, er bod amrywiadau lleol yn deillio o ymyriadau 14-19, dengys data ystadegol ar lefel Cymru bod nifer y bobl ifanc sy'n NEET wedi amrywio yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ond wedi parhau yr un fath fwy neu lai (gweled adran 2.2).

Darparodd y cydgysylltwyr rhwydwaith wybodaeth i'r Grŵp hefyd ynglŷn â'r problemau ymarferol sydd wedi'u datrys er mwyn gweithredu'r Mesur ac enghreifftiau o arferion gorau. Roedd rhai enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys:

- datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng canolfannau dysgu a darparwyr dysgu, ynghyd â nifer o bolisïau a gweithdrefnau eraill i ategu'r Cytundeb, er mwyn cynorthwyo i gynnig darpariaeth gydweithredol ledled ardaloedd awdurdodau;
- cael gwared ar ddyblygu cyrsiau'n ddiangen drwy weithio mewn partneriaeth;
- rheoli problemau o ran ysgolion wedi'u hynysu'n ddaearyddol ac anymarferoldeb cludo dysgwyr i ysgolion a cholegau eraill drwy ddatblygu a darparu cyrsiau galwedigaethol yn yr ysgol;
- defnyddio dysgu cyfunol a Rhith-amgylcheddau Dysgu, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn gallu gweithio mewn partneriaethau lleol i'r un graddau, i ehangu'r dewis a chynnal yr hyn a fyddai wedi bod yn grwpiau addysgu bach.

Roedd rhai materion/awgrymiadau a drafodwyd yn cynnwys:

- canlyniadau anochel ar gyfer cyrsiau L1 gan fod y Mesur yn targedu cyrsiau L2 cyn-16 yn benodol;
- anghysondeb rhwng y galw am gyrsiau a'r farchnad swyddi, wedi'i ategu gan adroddiad Hidden Talents II[17]. Mewn un rhanbarth, rhoddwyd enghraifft lle'r oedd 94,000 o fyfyrwyr wedi cwblhau cyrsiau Trin Gwallt a Harddwch, er mai dim ond 18,000 o swyddi oedd ar gael;
- amheuon am gynaliadwyedd partneriaethau a nifer y cymwysterau galwedigaethol y gellir eu cynnig os yw cyllid grant 14-19 yn dod i ben heb i'r polisi esblygu wedi hynny;
- yr angen am fwy o hyblygrwydd a phenderfyniadau ar lefel ysgol, yn enwedig o ystyried mathau eraill o bwysau ar y cwricwlwm - h.y. mae pwyslais cynyddol ar bynciau craidd, y trothwy L2 cynhwysol a CBC. Mae gofyniad hefyd am arlwy eang i fodloni'r Mesur, er gwaetha'r ffaith y bydd dysgwyr, mewn ambell i achos, ond yn dewis 2 opsiwn yn ymarferol.

Cyflwynodd cydgysylltwyr rhwydwaith sampl hefyd o arolygon dysgwyr o'u rhanbarthau unigol. Roedd rhai o'r prif ganfyddiadau'n cynnwys:

- mae nifer sylweddol o ddysgwyr yn mwynhau cael eu haddysgu mewn amgylchedd galwedigaethol;

---

[16] Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment or Training 2010
[17] Hidden Talents II report 2013: Local Government Association 2013

- crybwyllodd dysgwyr rai problemau, gyda chyngor, cymorth a gwybodaeth aneglur am y cyrsiau cyn ac ar ôl iddynt ddewis eu hopsiynau;
- adroddodd dysgwyr eu bod yn hoffi gweithgareddau nad ydynt yn eu cysylltu â'r ysgol, tasgau sy'n ymarferol ac yn annog annibyniaeth;
- anfodlonrwydd ymysg rhai dysgwyr gyda'r trefniadau teithio.

### *Dibyniaeth ar gyllid grant i ymateb i'r Mesur*

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r modd y byddai ysgolion wedi llwyddo i fodloni gofyniad 30 dewis y Mesur heb y cyllid grant 14-19 yn 2012-13. Roedd y dadansoddiad yn ystyried yr elfennau o'r grant a oedd wedi'u neilltuo ar gyfer darpariaeth cwrs yn unig. Dangosodd data arlwy cyrsiau gan Gyrfa Cymru Ar-lein pe bai'r dewisiadau a gyllidwyd gan grant yn 2012-13 yn cael eu dileu, heb allu ymhlith ysgolion a cholegau i bontio i drefniadau amgen gydag amser, byddai 51 o ysgolion wedi methu â bodloni'r gofyniad i gynnig dewis o 30 cwrs o leiaf.

Cynhaliwyd ymarfer tebyg ar y ddarpariaeth a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer 2013-14 a sut roedd y cyllid grant 14-19 yn cefnogi darpariaeth gydweithredol leol. Profwyd hyn yn erbyn y gofyniad i gynnig dewis o 30 cwrs o leiaf, ac isafswm diwygiedig o 25 dewis. Dangosodd data Gyrfa Cymru Ar-lein y byddai 24 o ysgolion wedi methu â bodloni'r gofyniad i gynnig 30 dewis heb y cymorth cyllid grant 14-19 uniongyrchol, a heb y gallu i bontio i drefniadau amgen, ond mai dim ond 5 fyddai wedi methu â bodloni'r gofyniad i gynnig 25 dewis[18].

Mae'r gostyngiad yn nifer yr ysgolion yn ystod y ddwy flynedd (o 51 i 24) a fyddai wedi methu bodloni amodau'r Mesur o ddewis o 30 cwrs pe na bai cyllid grant ar gael yn awgrymu bod y ddibyniaeth ar gyllid grant 14-19 eisoes yn cael ei reoli wrth sicrhau bod opsiynau ar gael i ddysgwyr. Gallai hyn fod oherwydd bod cyllidebau grant wedi'u gostwng yn y blynyddoedd diwethaf.

## 2.4 Adolygiadau

### Adolygiad o Gymwysterau

Derbyniodd y Grŵp gefndir yr adolygiad[19], a lansiwyd gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau yn 2011, ynghyd â chrynodeb o'r argymhellion a ddeilliodd o hynny. Roedd y datblygiadau mwyaf perthnasol a ystyriodd y Grŵp yn cynnwys:

- yr argymhelliad i fabwysiadu diffiniadau gan y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET);
- newidiadau i drothwyon perfformiad (14-16), gyda'r cyfraniad nad yw'n TGAU wedi'i gyfyngu i 40% a threfn lle nad yw'r un cymhwyster yn werth mwy na dau TGAU mewn termau cyfwerth;
- yr argymhelliad y dylai'r CBC ddod yn brif fesur perfformiad ar ôl 2017. Rhannwyd y model CBC diwygiedig gyda'r Grŵp, er y nodwyd bod gweithgorau'n parhau i ymgysylltu ynglŷn â'r elfennau gorfodol o'r unedau craidd a'r cynnwys ar gyfer adborth gan randdeiliaid yn yr hydref. Nododd y Grŵp hefyd bod gwerth y CBC o ran dewisiadau cyrsiau, sef tri dewis ar hyn o bryd, yn debygol o gael ei ostwng i un o dan y trefniadau newydd;
- yr argymhelliad y dylid cyflwyno dau TGAU mathemateg newydd o 2015 ymlaen – un yn ymdrin â rhifedd a'r llall yn ymdrin ag agweddau o dechnegau mathemategol;
- yr awgrym y dylai fod gan ddysgwyr 14-16 gwricwlwm eang a chytbwys, ac y dylai dysgwyr ôl-16 ymgymryd â rhaglen ddysgu gydlynol.

[18] Gyrfa Cymru Ar-lein yw ffynhonnell y data hwn. Mae'r data'n cael ei gofnodi gan ysgolion.
[19] Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru 2012

## *Adolygiad o raddfa ac effaith teithio cynyddol o ganlyniad i'r Mesur*

Comisiynwyd ymchwil i effeithiau teithio cynyddol o ganlyniad i'r Mesur mewn ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i weithrediad y Mesur. Nod yr adolygiad oedd nodi ac ystyried a yw'r gofynion teithio ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Mesur wedi cael unrhyw effaith ar ddysgwyr, athrawon a darlithwyr ac, os ydynt, i ba raddau. Cyflwynodd BMG Research, a enillodd y contract i adolygu graddfa ac effaith teithio cynyddol o ganlyniad i'r Mesur, eu canfyddiadau allweddol i'r Grŵp. Y prif rwystrau a nodwyd o ran cludiant dysgwyr oedd:

- anawsterau amserlennu, a myfyrwyr yn amharod i deithio;
- cost cludiant i ddarpariaeth gan ddarparwyr eraill ac amser teithio;
- safbwyntiau negyddol rhieni;
- mynediad gwael i drafnidiaeth gyhoeddus.

Y prif fanteision a adroddwyd oedd:

- ar y cyfan roedd dysgwyr ac uwch athrawon yn croesawu'r opsiynau cwricwlwm ychwanegol a gynigiwyd;
- ansawdd y profiad dysgu gyda darparwyr eraill;
- mwy o annibyniaeth i ddysgwyr;
- mwy o ymgysylltu ymysg dysgwyr.

Yn fras, roedd y canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag adborth safbwyntiau dysgwyr gan y rhwydweithiau rhanbarthol 14-19. Credwyd yn gyffredinol y byddai'n well gan ddysgwyr allu astudio'r un opsiynau yn eu prif ysgolion pe bai hynny'n bosibl. Fodd bynnag, er y pryderon hyn, ymddengys bod y ffaith bod dysgwyr yn mwynhau eu cyrsiau yn tueddu i wneud iawn amdanynt.

O ran cyllid, dywedodd BMG fod cyfweliadau gyda swyddogion addysg a chludiant AALl wedi datgelu pryderon na fydd rhai partneriaethau'n gynaliadwy heb y lefelau cywir o gyllid ar gyfer cludiant ac nad oedd llawer o botensial am arbedion mewn ardaloedd gwledig gan fod mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Cadarnhaodd cyfweliadau ag ysgolion hefyd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) yn dal i gael anhawster dod o hyd i sefydliadau partner priodol o fewn pellter teithio hawdd.


Adroddwyd hefyd bod sawl ALI yn gweithio ar hyn o bryd i weld sut i gyllido cludiant pan fydd grantiau 14-19 cyffredinol yn cael eu gostwng ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys chwilio am gyllid pellach o fewn yr awdurdod ei hun a chan ysgolion ac nid yw rhai ardaloedd yn obeithiol y bydd y partneriaethau cyfredol yn parhau os na ellir dod o hyd i gyllid.

## *Profiadau dysgwyr yn CA4*

Ymgorfforwyd ymchwil i brofiadau ac agweddau dysgwyr at ddarpariaeth a chymorth i ddysgwyr yn CA4 i'r astudiaeth ar gludiant dysgwyr. Yn sgil yr amser a'r gyllideb gyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, dim ond wyth ysgol a ddychwelodd holiaduron a oedd yn cynnwys tua 2,000 o ddysgwyr. Felly, nid yw'r canfyddiadau isod yn cynrychioli ysgolion ledled Cymru; mae canlyniadau'n ddangosol a dylid bod yn ofalus wrth eu dehongli. Roedd y canfyddiadau allweddol a gyflwynwyd i'r grŵp yn cynnwys:

- roedd dysgwyr yn fodlon ar y cyfan gyda'r cydbwysedd o ddewisiadau galwedigaethol ac academaidd, ond roedd pryderon eu bod yn cael eu 'gwthio' i wneud dewisiadau penodol ar adegau;
- roedd rhai dysgwyr yn cael anawsterau gyda'r system 'colofn' o ddewis opsiynau, gan fod dewisiadau'n cael eu cyfyngu os oeddynt yn gwrthdaro neu'n llawn;

- adroddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod wedi derbyn cymorth wrth wneud eu dewisiadau CA4 gan aelodau'r teulu (70%) ac athrawon (69%);
- roedd 42% o ddysgwyr yn ei gweld hi'n 'gymharol hawdd' gwneud eu dewisiadau pwnc ar gyfer CA4;
- adroddodd un o bob pum dysgwr eu bod wedi cael cymorth gan gynghorwr gyrfaoedd (21%) neu wefan Gyrfa Cymru (22%), er nad oedd llawer o ymwybyddiaeth a defnydd o Gyrfa Cymru a'r wefan ymysg grwpiau trafod;
- roedd cyfleoedd dysgu anffurfiol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, yn enwedig profiad gwaith a swyddi rhan-amser i gael profiad ymarferol. Roedd dysgwyr yn falch iawn o weithgareddau cymunedol a gwirfoddoli hefyd;
- roedd dysgwyr am gael mwy o gyfleoedd dysgu 'byd go iawn' priodol.




Ffynhonnell: BMG Research, Astudiaeth safbwyntiau dysgwyr CA4, 2013

### *Asesiad ac Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol*

Er bod yr Asesiad a'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn canolbwyntio ar CA2 a CA3, roedd aelodau'r Grŵp am gael gwybod amdano ac ystyried a allai fod goblygiadau ar gyfer CA4. Eglurwyd mai diben yr adolygiad yn gryno yw:

- ystyried a yw'r disgwyliadau ynglŷn â'r hyn y dylai dysgwyr ei wybod a gallu ei wneud, fel y nodir yng Ngorchmynion Pwnc cyfredol y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn ddigon herio ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol;
- ystyried y trefniadau asesu ehangach sydd ar waith mewn ysgolion a gwneud argymhellion ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r profion yn rhan o ddull cydlynol.

Mae'r tîm sy'n arwain yr adolygiad wedi bod yn casglu a dadansoddi tystiolaeth yng nghyfnod un a bydd yn lansio ymgynghoriad agored yn hydref 2013.

### *Darpariaeth gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol*

Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd (Leighton Andrews AC) benodiad Robert Hill i gynnal yr adolygiad ar ddarpariaeth gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol. Nododd y Grŵp bod yr adroddiad canlyniadol[20], sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad tan fis Medi 2013, yn cyflwyno detholiad eang o opsiynau i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu pum maes:

- gwella addysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth
- cryfhau arweinyddiaeth ysgolion
- **cynyddu partneriaethau ysgolion**
- gwella atebolrwydd
- **trefnu gwelliannau mewn ysgolion**

Ystyriodd y Grŵp yr adrannau yn fwy perthnasol i reoli busnes Llwybrau Dysgu 14-19 i'r dyfodol. Yn yr adroddiad, un argymhelliad a gyflwynwyd yw cynyddu ymreolaeth ysgolion trwy drwyddedu ysgolion i gael mwy o reolaeth dros reoli staff, y cwricwlwm a chyllidebau, tra'n cynyddu partneriaethau / ffederasiynau ysgol ffurfiol hefyd. Y ddadl o blaid hyn yw y dylai arwain at gyrhaeddiad cynyddol gan y bydd yn atebolrwydd clir am eu perfformiad yn ddisgwyliedig gan ysgolion. Byddai'r trefniant hwn hefyd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar ysgolion sy'n perfformio'n dda i gynorthwyo ysgolion gwannach. Roedd y Grŵp yn cydnabod y gallai'r newidiadau posibl hyn gael oblygiadau ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. Er enghraifft, byddai'n debygol o gryfhau'r cydweithredu cyfredol rhwng ysgolion wrth ddatblygu eu harlwy cwricwlwm lleol, a gallai gael effaith ar sut y defnyddir cyllid yn y dyfodol.

Mae adroddiad adolygiad Hill yn cynnig hefyd y dylid cyfnerthu nifer y gwasanaethau addysg ar unwaith, gyda golwg ar ad-drefnu swyddogaethau addysg ALlau. Os rhoddir yr argymhellion hyn ar waith, mae'r Grŵp yn cydnabod y bydd hyn yn effeithio ar fodelau gwaith rhanbarthol sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd i hwyluso Llwybrau Dysgu 14-19.

## 2.5 Fforymau cyfrwng Cymraeg

Derbyniodd y Grŵp gefndir y fforymau cyfrwng Cymraeg a sefydlwyd i hwyluso cydweithredu gan ysgolion a cholegau i gefnogi ei gilydd a rhannu darpariaeth lle'n bosibl. Prif amcanion y fforymau yw:

- hyrwyddo datblygiad addysg 14-19 cyfrwng Cymraeg a llwybrau dilyniant ieithyddol;
- hyrwyddo cydweithredu trawsffiniol rhwng sefydliadau sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;
- darparu cymorth, cyngor ac arweinyddiaeth i sefydliadau addysgol sy'n darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae tri fforwm wedi'u sefydlu ledled Cymru: un yn y gogledd; un yn y de-orllewin a'r canolbarth; ac un yn y de-ddwyrain (sy'n cynnwys rhanbarthau'r canolbarth a'r dwyrain).

Er nad yw'r dyraniad grant 14-19 ar gyfer cyllido'r fforymau'n sylweddol (£186,286 ar gyfer 2013-14 gyda £1.341 miliwn o gyfanswm y grant wedi'i neilltuo ar gyfer cyllido darpariaeth cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog), eglurwyd bod gan gyllido'r fforymau rôl o ran cefnogi darpariaeth cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

## 2.6 Gwybodaeth am y farchnad lafur

Rhannodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ymchwil gyda'r Grŵp ac amlygwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

[20] 'The future delivery of education services in Wales': Adolygiad gan Robert Hill Consulting 2013

- mae prosiectau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur wedi ystyried arolygon sgiliau a dadansoddiadau cysylltiedig er mwyn gwella hygyrchedd Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a'r defnydd ohoni i gynorthwyo i lywio penderfyniadau darpar ddefnyddwyr;[21]
- mae ymchwil yn dangos nad oes cyfatebiaeth rhwng dyheadau gyrfaoedd pobl ifanc a'r farchnad lafur;
- mae'r agenda ymgysylltu cyn-16, sy'n cynnwys Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, yn cynnig cyfle i hysbysu pobl ifanc yn well am y llwybrau dilyniant sydd ar gael, a ddylai yn ei dro gynorthwyo i lywio eu llwybr dysgu unigol;
- lle'r aseswyd nad oedd y rhai a oedd yn gadael addysg wedi'u paratoi'n dda ar gyfer gwaith, gofynnwyd am y rhesymau am hynny, a chrybwyllwyd y diffyg profiad byd gwaith/bywyd, diffyg aeddfedrwydd, agwedd wael, a diffyg cymhelliant fel y prif resymau at draws y mwyafrif o grwpiau.

Comisiynwyd y tîm prosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i lunio papur ar y dystiolaeth gyfredol ar fanteision ac anfanteision arlwy'r cwricwlwm yn CA4, gan dynnu sylw arbennig at y nifer a'r dewis cynyddol o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael. Roedd yr astudiaeth ddesg yn cynnwys crynhoi'r ymchwil gyfredol, ac roedd hefyd yn ystyried effeithiau cael cymhwyster galwedigaethol ar y tebygolrwydd o gael gwaith. Roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- gallai ysgolion wynebu sawl mater wrth ddarparu cyrsiau galwedigaethol, gyda rhai wedi'u creu neu eu cymhlethu gan weithio â darparwr allanol;
- crybwyllir effeithiau cadarnhaol ar y tebygolrwydd o gael gwaith ar ôl ennill cymhwyster galwedigaethol, a dengys canfyddiadau bod hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r rhai a welwyd ar gyfer cymwysterau academaidd;
- datgelodd arolwg dwy flynedd Ofsted[22] a oedd yn ymchwilio i effeithiau hyblygrwydd cynyddol yn y cwricwlwm CA4 yn Lloegr  bod rhai grwpiau o fyfyrwyr, yn enwedig y rhai mewn perygl o ddadrithio neu ymddieithrio, yn mwynhau dysgu fwy yn CA4 oherwydd eu bod yn cael y cyfle i astudio pynciau a oedd yn fwy perthnasol yn eu tyb nhw, a hefyd oherwydd yr amrywiaeth ehangach o ddulliau dysgu;
- gall astudio pynciau galwedigaethol wella presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio;
- roedd y dystiolaeth yn amhendant ynglŷn ag effaith dilyn mwy o gyrsiau galwedigaethol yn CA4 yn arwain at welliannau sylweddol yng nghyrhaeddiad cyffredinol myfyrwyr (nodwyd hefyd yn adran 2.2).

Yn Nigwyddiad Llwybrau Llwyddiant Sir Ddinbych ar 15 Mawrth 2013, siaradodd Prif Ddisgybl Ysgol Uwchradd y Rhyl am y ffordd y mae dewis ehangach wedi bod o fudd i ddysgwyr yn yr ysgol:

> *"Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r disgyblion yn fy ysgol i wedi cael cynnig y cyfle i ddefnyddio'r cryfderau sydd ganddynt i ennill cymwysterau o sawl rhaglen wahanol sy'n addas ar eu cyfer fel rhan o'u hwythnos ysgol arferol, ac un newid sylweddol yn sgil hyn yw nifer y gwaharddiadau - yn 2008 cafwyd 279 gwaharddiad yn y flwyddyn, a chollwyd 500 o ddyddiau, ond llynedd dim ond 30 gwaharddiad a gafwyd a dim ond 102 o ddyddiau a gollwyd. Wrth gwrs, mae llawer o ddisgyblion yn falch o fod yn yr ysgol ac yn yr ystafell ddosbarth drwy'r adeg, ond mae nifer o wahanol opsiynau ar gyfer y rhai nad ydynt."*

## 2.7 Pwyntiau'r cwricwlwm lleol

[21] Employer Skills Survey, Employer Perspectives Survey, Working Futures, Archwiliad Cenedlaethol Sgiliau Strategol i Gymru
[22] Ofsted: The Key Stage 4 curriculum: increased flexibility and work-related learning 2007

Y rhesymeg wrth wraidd mabwysiadu system sgorio pan gyflwynwyd y Mesur yn 2009 ar ben y gofyniad i ysgolion a cholegau gynnig o leiaf 30 cwrs oedd sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu. Golygai hyn y gellid cynnwys cyrsiau L1 yn y system sgorio yn CA4 a chyrsiau Lefel 1 a 2 ar gyfer ôl-16.

Yn CA4, mae 30 cwrs ar L2 (maint TGAU) yn gyfwerth â sgôr o 600 (30 x 20) - ond o dan y Mesur, pennir isafswm sgôr o 780 ar gyfer pob cwricwlwm lleol. Pennwyd y sgôr hwn er mwyn sicrhau bod darparwyr dysgu'n cynnig cyrsiau amrywiol o wahanol faint / nifer a lefel. O fewn y sgôr mae isafswm sgôr o 260 wedi'i bennu ar gyfer darpariaeth alwedigaethol (traean).

Yn CA4 o ganlyniad, lle mae gofyn i ysgolion gynnig 30 dewis gan gynnwys o leiaf 5 cwrs galwedigaethol, mae'n rhaid iddynt sicrhau hefyd fod y cwricwlwm yn cwmpasu 780 o bwyntiau, gyda 260 ohonynt ar gyfer cyrsiau galwedigaethol.

Mewn darpariaeth ôl-16, mae angen isafswm o 30 cwrs ar L3 ynghyd ag isafswm sgôr o 1600 pwynt. I fod yn gymwys i gyfrif fel dewis, mae'n ofynnol i isafswm pob cwrs fod yn gyfwerth ag isafswm o 34 pwynt sy'n gyfwerth â Diplomâu sydd ar gael o'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh). Mae pob Diploma Lefel 3 yn y Fframwaith yn cyfrif fel dewis. Ar gyfer cyrsiau sydd wedi'u seilio ar gymwysterau o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol fel TAG Safon Uwch, 50 pwynt yw'r isafswm sy'n dderbyniol i gyfrif fel dewis. Gall cyrsiau ar Lefel 1 a 2 (gyda sgôr cwricwlwm lleol o 20 o leiaf) gyfrannu at gyflawni'r 1600 pwynt cyn belled â bod y gofyniad o isafswm o 30 dewis ar Lefel 3 yn cael ei fodloni.

Ar hyn o bryd, mae rhai cyrsiau galwedigaethol yn 120+ pwynt a dangosir enghreifftiau o gymwysterau fel hyn yn y tabl.

| **Teitl y Cwrs** | **Sgôr Cwricwlwm Lleol** |
|---|---|
| Diploma City & Guilds Lefel 2 mewn Dodrefn – Clustogwaith (FfCCh) | 120 |
| Diploma City & Guilds Level 2 mewn Gofal Ceffylau seiliedig ar Waith (FfCCh) | 140 |
| Diploma Awdurdod Cymwysterau'r Alban Lefel 3 mewn Dodrefnu Siopau (Adeiladu) (FfCCh) | 175 |

# Pennod 3: Prif gasgliadau ac argymhellion

Wrth adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd, aeth y Grŵp ati i drafod y ffordd ymlaen gan ddefnyddio penawdau'r cylch gorchwyl fel strwythur.

## 3.1 Canlyniadau dewis ehangach o gyrsiau

Roedd yn glir o'r dystiolaeth a gyflwynwyd bod y canlyniadau bwriedig sy'n deillio o ddewis ehangach yn cynnwys: cydweithio, hyrwyddo mynediad i gyrsiau cyfrwng Cymraeg, cysondeb ledled Cymru a gwelliannau yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Roedd y Grŵp yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn pob maes ers cyflwyno'r Mesur.

Ystyriodd aelodau'r Grŵp y canlyniadau anfwriadol hefyd, gan gynnwys:

- amharu ar y diwrnod ysgol oherwydd amserau teithio hir neu broblemau eraill sy'n gysylltiedig â threfniadau teithio;
- athrawon ysgol yn addysgu pynciau mwy galwedigaethol. Mewn achosion lle mae'r pwnc y tu hwnt i faes arbenigedd uniongyrchol yr athro, mae'n gallu effeithio ar anghenion hyfforddi / datblygu a / neu ar ansawdd y ddarpariaeth;
- poblogrwydd cynyddol pynciau galwedigaethol yn arwain yn anochel at rai pynciau traddodiadol yn mynd yn llai poblogaidd. Amlygir hyn gan ganran gynyddol y disgyblion sy'n cyflawni'r L2 cynhwysol drwy ennill cymwysterau nad ydynt yn rhai TGAU;
- disgwyliad y bydd dysgwyr yn cwblhau cwrs galwedigaethol L2 yn llwyddiannus ac yn gallu symud ymlaen i gymhwyster proffesiynol L3;
- problemau'n ymwneud â rhannu amserlen a'r effaith ar grwpiau o ddysgwyr eraill yn yr ysgol;
- llai o bwyslais ar gyrsiau L1 gan fod y Mesur yn canolbwyntio ar L2, er bod y cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n ennill cymhwyster L2 yn gwneud iawn am hyn (tabl adran 2.2: % y disgyblion 15 oed sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol yn ôl lefel).

Cyfeiriodd y Grŵp at fanteision eraill dewis ehangach, gan gynnwys:

- newid mewn disgwyliad llinell sylfaen ar gyfer dysgwyr a disgwyliadau ar gyfer llwybrau'r dyfodol;
- mwy o bobl ifanc yn cyflawni ar L2;
- gwaharddiadau parhaol o'r ysgol a dadrithiad ymysg grwpiau o ddysgwyr CA4 yn lleihau, fel yr amlygir gan bresenoldeb gwell;
- dysgwyr ar draws yr ystod allu yn dewis llwybrau mwy addas;
- dysgwyr yn cael profiad o ddulliau dysgu amrywiol ac amgylcheddau dysgu gwahanol;
- y bwlch rhwng tlodi a chyflawniad yn lleihau.

Er na ellir priodoli pob gwelliant i'r polisi dewis ehangach, roedd y Grŵp o'r farn fod cyfuniad o'r polisi hwn a ffactorau eraill yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr CA4. Daeth y Grŵp i'r casgliad bod tueddiadau cyffredinol y data ar berfformiad a chyflawniad yn cefnogi'r safbwynt hwn. O ganlyniad, roedd y Grŵp yn credu bod manteision dewis ehangach yn fwy arwyddocaol na'r anfanteision, sy'n tueddu i fod yn heriau gweithredol y mae modd eu lliniaru drwy rannu arfer da.

## 3.2 Cydbwysedd rhwng cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol

Ystyriodd y Grŵp faint gofynnol arlwy cwricwlwm lleol cyffredinol, ac ai 5 cwrs oedd y nifer cywir o gyrsiau galwedigaethol i'w cynnig a sut y gellid sicrhau cydbwysedd cyffredinol.

## *Maint yr arlwy*

Nododd adroddiad Estyn, ‘Dewis ehangach a’r craidd dysgu’[23] bod cynnig rhagor o gymwysterau galwedigaethol wedi cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr, gan wella cyflawniad, presenoldeb ac ymddygiad, yn enwedig ymysg y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Ystyriodd y Grŵp y gwelliannau yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol, ac er na all14-19 hawlio’r clod am bob un o’r gwelliannau, a bod newidynnau eraill yn berthnasol (fel yr agenda ar drawsnewid), cydnabuwyd bod 14-19 wedi cael effaith bwysig, yn enwedig wrth alluogi myfyrwyr i gael canlyniadau gwell wrth ddilyn cyrsiau galwedigaethol ac aros ym myd addysg.

Wrth werthuso arlwy cwricwlwm lleol, nododd y Grŵp bod Estyn yn ystyried a yw anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu ac a yw’n ddigon amrywiol. Ni chanolbwyntir yn bennaf, felly, ar nifer y cyrsiau sy’n cael eu cynnig, ond ers cyflwyno’r Mesur mae Llywodraeth Cymru wedi olrhain hynny. Mae adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd yn cyfeirio at sylwadau’r cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews AC) bod angen sicrhau dewis ystyrlon, ond y dylid canolbwyntio mwy ar ansawdd.[24]

Yn ogystal, mae dadansoddiad o arlwy cwricwlwm lleol yn erbyn cyflawniad drwy ddefnyddio data cymharol cenedlaethol wedi dangos ei bod yn anodd cymharu nifer y cyrsiau sy’n cael eu cynnig a pherfformiad yr ysgol - h.y. yn nhermau cyflawniad ar drothwy’r L2 cynhwysol, nid yw dysgwyr mewn ysgolion sy’n cynnig yr isafswm o 30 o gyrsiau o dan anfantais o anghenraid o gymharu â dysgwyr mewn ysgolion sy’n cynnig dros 40 o gyrsiau. Yn yr un modd, nododd y Grŵp ei bod yn anodd olrhain tueddiadau mewn cyflawniad ar sail arlwy CA4, fel y cydbwysedd rhwng pynciau ‘traddodiadol’ a phynciau ‘nad ydynt yn draddodiadol’, hyd yn oed pan oedd ysgolion sydd â lefel uchel o blant yn cael prydau ysgol am ddim yn cynnig amrywiaeth ehangach o gyrsiau ar gyfartaledd ar gyfer eu dysgwyr. Gall dewis ehangach, opsiynau galwedigaethol a gweithgareddau i gadw pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gynyddu ymgysylltiad dysgwyr a chefnogi anghenion datblygu ehangach - fel gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd. Ond roedd yn anoddach olrhain cysylltiadau uniongyrchol rhwng y deilliannau hynny a graddau A* i C gwell o fewn y trothwy L2, ac ategir hyn gan y dadansoddiad yn adran 2.2 o gyflawniad plant sy’n cael prydau ysgol am ddim ar ddau ben y sbectrwm.

O ganlyniad i ganfyddiadau Arolwg Llais y Dysgwyr (2009) bod brwdfrydedd a boddhad yn cynyddu pan fo galw myfyrwyr am gyrsiau yn cael ei fodloni (adran 2.2), ystyriodd y Grŵp a fyddai lleihau’r gofynion sylfaenol yn cael effaith ar ymgysylltiad. Roedd y Grŵp o’r farn y gallai lleihau’r gofynion sylfaenol gael effaith gadarnhaol pe bai’r pwyslais ar ansawdd yr arlwy yn cynyddu (mae hyn yn berthnasol i ansawdd yr addysgu ac amrywiaeth a pherthnasedd y cyrsiau a ddarperir).

Ystyriodd y Grŵp yr angen i fod yn realistig hefyd a sut i gadw ‘r cydbwysedd rhwng ansawdd / nifer y cyrsiau mewn amgylchedd lle mae adnoddau ariannol dynodedig yn lleihau. Cytunwyd bod angen lleihau isafswm y cyrsiau sydd ar gael er mwyn rhoi hyblygrwydd lleol i bob ysgol wella ansawdd ei darpariaeth. Wrth reoli unrhyw ostyngiad, pwysleisiwyd hefyd y dylai darparwyr a chydgysylltwyr rhwydweithiau rhanbarthol sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar unrhyw grwpiau o ddysgwyr penodol o ganlyniad i bwyslais cynyddol ysgolion ar ansawdd y cyrsiau sy’n cael eu cynnig, ac ansawdd y dewis yn yr arlwy gyffredinol. Cydnabuwyd bod rhai ysgolion gwledig bach, a rhai ysgolion Cymraeg / dwyieithog yn benodol yn ei chael hi’n anodd bodloni gofynion y Mesur ar hyn o bryd, ac y gallai arlwy sylfaenol ychydig yn llai arwain at y sefydliadau hynny yn defnyddio adnoddau cyfyngedig i gefnogi ansawdd y ddarpariaeth a gwella canlyniadau i ddysgwyr.

Roedd y Grŵp hefyd yn ymwybodol o’r dadansoddiad o ddata gan Gyrfa Cymru Ar-lein ar yr arlwy o gyrsiau a’r nifer oedd yn dilyn cyrsiau yn 2012/13, data’r arlwy a oedd ar gael ar gyfer 2013/14, a sut y cefnogwyd hynny gan gyllid y grant 14-19. Er bod pob ysgol a choleg yn bodloni gofynion y Mesur ar hyn o bryd ar gyfer y dewis o 30 o gyrsiau, roedd nifer y cyrsiau sy’n cael eu cynnig gan ysgolion ac mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol yn amrywio’n sylweddol. Cyfeiriodd y Grŵp yn benodol at y dadansoddiad sy’n dangos y byddai 51 o ysgolion wedi cynnig llai na’r 30 cwrs gofynnol yn 2012-13 heb gymorth cyllid grant 14-19, ond dim ond 5 ysgol a fyddai’n methu bodloni

[23] Estyn: Cynnydd wrth weithredu dewis ehangach (2010)
[24] Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 – Adroddiad

telerau gofyniad cyfreithiol is o 25 cwrs[25]. Hefyd, tua 26 oedd nifer y cyrsiau a ddilynwyd gan ddysgwyr CA4 yng Nghaerffili ar gyfartaledd yn 2012/13 (y ffigur isaf ar draws Awdurdodau Lleol).

O gofio hyn, ystyriodd y Grŵp oblygiadau lleihau isafswm y cyrsiau sy'n cael eu cynnig i 25 cwrs, ac a fyddai hyn yn peryglu'r cynnydd a wnaed ers cyflwyno'r Mesur (fel y nodwyd yn 3.1). O dan drefn o gynnig isafswm o 30 o gyrsiau, nododd y Grŵp bod ysgolion yn cynnig tua 37 o gyrsiau ar gyfartaledd ar hyn o bryd. O ganlyniad, pwysleisiodd y Grŵp y byddai lleihau'r gofyniad i gynnig 25 cwrs yn hytrach na 30 cwrs (ychydig yn llai na'r nifer isaf o gyrsiau a ddilynir ar hyn o bryd) yn cynrychioli isafswm yn unig o gyrsiau y dylai pob ysgol uwchradd yng Nghymru eu cynnig, a bod hawl i ysgolion barhau i gynnig dewis ehangach os oedd modd iddynt wneud hynny a'u bod yn teimlo y byddai'n fanteisiol i'w dysgwyr.

| |
|---|
| ***Argymhelliad 1***<br>Dylid cyflwyno rheoliadau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar fyrder er mwyn lleihau'r isafswm o gyrsiau sy'n ofynnol i ffurfio arlwy cwricwlwm lleol i 25. |

Ni wnaeth adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc nodi'r angen am adolygiad o isafswm y cyrsiau sydd eu hangen ar gyfer arlwy cwricwlwm lleol ôl-16. Serch hynny, nododd y Grŵp y bydd rhai goblygiadau posibl o safbwynt bylchau mewn cynnydd os yw isafswm cyrsiau CA4 yn cael ei ostwng, a dywedodd bod angen i Lywodraeth Cymru brofi'r effaith.

### *Yr elfen alwedigaethol*

Pwysleisiodd y Grŵp bod angen rhoi mwy o bwyslais ar bob cwrs fel rhan o arlwy 'ddilys', gan nodi bod angen cadw ysgogiadau (cyllido neu ddeddfwriaethol) er mwyn sicrhau nad yw cymwysterau galwedigaethol yn cael eu diystyru, er gwaethaf cyfyngu ar gyfraniad cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU at fesurau perfformiad i 40% wrth symud ymlaen. Cyfeiriodd y Grŵp hefyd at newidiadau sy'n deillio o'r Adolygiad o Gymwysterau a datblygiadau CBC (adran 2.4), a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar nifer y cyrsiau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan fod gwerth CBC, sy'n cynnig 3 dewis ar hyn o bryd, yn debygol o ddisgyn i 1 o 2015 ymlaen. Ystyriodd y Grŵp y sefyllfa bresennol, ond roedd hefyd yn cydnabod bod datblygiadau pellach yn bosibl a bod angen i swyddogion Llywodraeth Cymru ystyried y datblygiadau hyn wrth gyflwyno unrhyw newidiadau i'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 o ganlyniad i'r adolygiad hwn, er mwyn sicrhau eu bod yn cydweddu.

Dylai lleihau isafswm y cyrsiau galwedigaethol sy'n cael eu cynnig i 3 ymateb i'r posibilrwydd y bydd gan ysgolion lai o gymhelliant i gynnig cynifer o gyrsiau galwedigaethol, ond roedd y Grŵp yn teimlo ei bod yn hollbwysig bod pob cwrs sy'n cael ei gynnig o ansawdd uchel ac yn gost-effeithiol, sy'n gallu sicrhau brwdfrydedd ac ymgysylltiad dysgwyr ag addysg. Yn ogystal â gostyngiad yn y gofyniad sylfaenol ar gyfer cyrsiau galwedigaethol, ystyriodd y Grŵp gyflwyno IVETs er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth alwedigaethol yn CA4. Trafodir y pwnc hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad yn adran 3.6.

O ganlyniad, er mwyn sicrhau arlwy cwricwlwm lleol cytbwys o ansawdd, awgrymodd y Grŵp y dylai cynllunwyr y cwricwlwm:

- ystyried anghenion dysgwyr a'r pynciau sydd fwyaf tebygol o apelio atynt. Gellir gwneud hyn drwy samplo barn dysgwyr a chynnig 'sesiynau blasu' os oes angen, a dylai hyn ddatrys y problemau yn ymwneud â diffyg arweiniad ar gyfer rhai cyrsiau;
- ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI) ac anghenion a blaenoriaethau sgiliau lleol a rhanbarthol wrth ddatblygu arlwy'r cwricwlwm lleol, er mwyn gwella cyflogadwyedd dysgwyr yn y dyfodol drwy arlwy o gyrsiau ystyrlon (gan gynnwys rhoi cyngor i ddysgwyr ar LMI fel y gallant ddeall sut y cafodd yr arlwy cwricwlwm lleol ei datblygu);

[25] Ffynhonnell y data hwn yw Gyrfa Cymru Ar-lein. Ysgolion sy'n gyfrifol am gofnodi'r data.

- sicrhau bod pob cwrs sy'n rhan o arlwy'r cwricwlwm yn hygyrch i ddysgwyr, ac y bydd yn cynnig cymhwyster perthnasol ac ystyrlon sy'n arwain at ddysgu a chyflogaeth bellach.

> ***Argymhelliad 2***
> Dylai rheoliadau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gynnwys isafswm o dri chwrs galwedigaethol sy'n ofynnol i ffurfio arlwy cwricwlwm lleol. Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylid monitro effaith yn agos a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Estyn i werthuso ansawdd a pherthnasedd arlwy cwricwlwm lleol mewn sampl o ysgolion.

## 3.3 Pwyntiau'r cwricwlwm lleol

Yn sgil y dystiolaeth a gyflwynwyd a phrofiadau proffesiynol aelodau'r Grŵp, cytunwyd na ddylid defnyddio'r system sgorio yn y dyfodol oherwydd y rhesymau canlynol:

- o safbwynt ymarferol, oherwydd natur y system bwyntiau, mae'n arwain yn aml at ofyniad i gynnig mwy na 30 o gyrsiau er mwyn cyrraedd y sgôr gofynnol, sy'n rhoi rhagor o bwysau ar ysgolion mewn rhai achosion heb unrhyw fanteision amlwg i ddysgwyr;
- fel y nodwyd yn adran 2.4, un o argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau oedd yr angen i newid trothwyon perfformiad (14-16) yn y dyfodol, gan gyfyngu ar gyfraniad cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU i 40% a sicrhau nad yw unrhyw gymhwyster yn gyfwerth â mwy na 2 TGAU. Gallai fod goblygiadau i hyn o safbwynt y sgôr sylfaenol o 260 pwynt sydd wedi ei bennu ar hyn o bryd ar gyfer darpariaeth alwedigaethol yn CA4.
- mae llawer o ysgolion a cholegau yn credu bod y system sgorio yn faich ychwanegol, ac nad yw'n ystyriaeth bwysig bellach wrth lunio arlwy'r cwricwlwm lleol. Fe'i cyflwynwyd yn wreiddiol i ddiogelu darpariaeth cyrsiau L1 er mwyn diwallu anghenion amrywiaeth o ddysgwyr, ac er i'r system ateb y diben yn y cyswllt hwnnw yn wreiddiol, nid oes angen y system bellach gan fod darparwyr yn gyfrifol am ddarpariaeth gydweithredol leol sy'n cynnwys elfennau lefel mynediad / lefel 1 sy'n diwallu anghenion dysgwyr.

> ***Argymhelliad 3***
> Gan fod y system sgorio pwyntiau sydd wedi'i chynnwys ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 bellach wedi ateb y diben ac nad yw'n cyfrannu mwyach at y broses o gynllunio cwricwlwm lleol yn ymarferol, dylid defnyddio Rheoliadau newydd i ddileu'r gofyniad hwn yn CA4 ac ôl-16 cyn gynted â phosibl.

## 3.4 Hygyrchedd cyrsiau mewn ardaloedd gwledig ac ysgolion llai/yr effaith ar ysgolion Cymraeg a dwyieithog

Trafododd y Grŵp y gofynion cyfreithiol cyfredol, a nodwyd bod yr un nodweddion yn tueddu i berthyn i'r ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd bodloni telerau'r Mesur:

- gwledig – yn bellach i ffwrdd o'r darparwr agosaf;
- dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg – bydd cynnig cyrsiau ar y cyd yn dibynnu ar y gallu i'w darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Awgrymwyd bod pwysau i fodloni gofynion y Mesur a'r ffactorau uchod yn golygu nad yw arlwy'r cyrsiau yn cynnig dewis dilys i ddysgwyr bob amser, a'r cwbl a wneir yw bodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd yn crybwyll y posibilrwydd nad yw arlwy'r cwricwlwm lleol yn ddilys. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o ddata Gyrfa Cymru Ar-lein ynglŷn â'r cyrsiau a ddilynwyd yn dangos nad oedd hon yn broblem eang, a bod y mwyafrif llethol o gyrsiau sy'n cael eu cynnig yn cael eu cynnal a'u dilyn gan ddysgwyr (gweler adran 2.2 *data dilyn cyrsiau*).

Pwynt allweddol arall a drafodwyd oedd nifer yr ysgolion a fyddai'n cynnig llai na 30 o gyrsiau pe bai darpariaeth cyllid grant yn cael ei dileu. Er nad oedd unrhyw wahaniaeth amlwg rhwng ardaloedd trefol a gwledig, nododd y Grŵp y byddai 51 o ysgolion ledled Cymru wedi methu bodloni gofynion y Mesur pe bai'r cyllid wedi'i ddileu yn 2012-13, a byddai 24 wedi methu bodloni'r gofynion yn 2013-14. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y dadansoddiad yn cynnwys costau teithio ar gyfer cyrsiau nad ydynt yn derbyn cyllid grant o anghenraid ond sy'n cael eu darparu ar y cyd ag eraill a lle mae arian grant 14-19 yn talu am y costau teithio. Yn yr un modd, nodwyd bod y dadansoddiad ond yn ystyried darpariaeth fel ymarferiad desg a bod modd, yn ymarferol, newid i drefniadau amgen llai costus dros amser, gan leihau'r effaith ar allu ysgolion i fodloni gofynion cyfreithiol.

Cynhaliwyd ymarferiad desg tebyg ar gyfer y Grŵp yn seiliedig ar gynlluniau 2013-14 ar y sail bod y gofyniad cyfreithiol yn isafswm o 25 cwrs, gan gynnwys 3 chwrs galwedigaethol. Yn ôl y dadansoddiad o ddata Gyfra Cymru Ar-lein, dim ond 5 ysgol a fyddai wedi methu bodloni'r gofyniad llai hwn o dan drefniadau cymorth ariannu 2013-14. Ac nid yw hynny'n cynnwys unrhyw rybudd na threfniadau pontio a fyddai wedi galluogi'r ysgolion i fodloni'r Mesur drwy ddefnyddio trefniadau cynllunio amgen.

Cydnabu'r Grŵp bod bodloni gofynion y Mesur yn fwy o her weithredol fel arfer i ysgolion yn y categorïau hyn, ond ar sail y data a'r dystiolaeth anecdotaidd, daeth i'r casgliad bod modd goresgyn yr her cyn belled â bod trefniadau da ar waith.

Yn ôl adolygiad teithio gan ddysgwyr BMG, mae rhai partneriaethau cludiant lleol yn gweithio'n dda, gan ddatblygu partneriaethau sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau bod clystyrau o ysgolion y mae dysgwyr yn teithio iddynt yn ddaearyddol ystyrlon ac yn cynnig digon o ddewis i ddysgwyr. Roedd darpariaeth gydweithredol lwyddiannus i'w phriodoli i gyfarfodydd rheolaidd, sy'n helpu i sicrhau cyfathrebu a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn ag arlwy cyrsiau.

Nododd y Grŵp hefyd bod y grant cyfrwng Cymraeg wedi gwella tegwch o ran cyfleoedd, sy'n golygu na fydd y newidiadau a gyflwynwyd yn creu unrhyw her ychwanegol cyn belled nad yw canran y cyllid a neilltuwyd ar gyfer darpariaeth cyrsiau Cymraeg yn cael ei lleihau yn anghymesur.

***Argymhelliad 4***
Bydd angen i elfen wedi'i neilltuo o'r cyllid ar gyfer cyrsiau 14-19 cyfrwng Cymraeg fod yn ei lle a bydd angen amddiffyn darpariaeth deg.

## 3.5 Teithio gan ddysgwyr 14–19

Ystyriodd y Grŵp ganfyddiadau adolygiad teithio BMG, gan nodi bod gan y rhan fwyaf o ddysgwyr agwedd gadarnhaol tuag at y cyrsiau y maent yn teithio iddynt, ac y byddant yn parhau i deithio er mwyn eu hastudio os oes angen. Roedd hyn yn mynd yn groes i broblemau honedig yn ymwneud â rhai dysgwyr yn methu rhwng 5 a 10 munud cyntaf eu gwersi neu'n teimlo'n fwy blinedig oherwydd oedi ar y ffordd neu amseroedd teithio hir. Y dull teithio mwyaf cyffredin yw bysiau/coetsys preifat a logir yn allanol, ac roedd y Grŵp yn pryderu bod tacsis yn cael eu llogi mewn rhai ardaloedd gwledig.

Nododd y Grŵp bod perthynas dda a chyfathrebu rheolaidd ac effeithiol rhwng ysgolion a swyddogion cludiant ALlau yn arwain at lefelau boddhad uwch gyda threfniadau cludiant. O ganlyniad, cytunodd y Grŵp y dylai cydgysylltwyr rhanbarthol rannu enghreifftiau o arferion gorau er mwyn galluogi rhanbarthau / ALlau eraill i ystyried ymarferoldeb mabwysiadu dulliau tebyg.

Roedd gan y Grŵp ddiddordeb hefyd yng nghanfyddiadau BMG sy'n ategu rhai o adroddiadau cydgysylltwyr y rhwydwaith 14-19 bod ysgolion cyfrwng Cymraeg (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i sefydliadau partner priodol o fewn pellteroedd teithio hwylus.

### *Data Llywodraeth Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am wariant grantiau ac am gyfran y dyraniadau grant 14-19 rhanbarthol sy'n cael ei gwario ar gludiant ar hyn o bryd. Yn 2013-14, roedd cludiant yn gyfrifol am tua 9% o gyfanswm y grant, ac er bod y gyllideb wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw costau cludiant wedi gostwng mewn termau real oherwydd costau gweithredwyr a'r cynnydd mewn cludiant.

Roedd y Grŵp yn awyddus i weld rhagor o fanylion am wariant grant 2013-14 ar gludiant, ac felly gofynnwyd i gydgysylltwyr y rhwydwaith 14-19 gyflwyno prisiau manylach ar gyfer cyrsiau sy'n cael eu cynnal ar y cyd o fis Medi 2013 ymlaen. Drwy ddadansoddi'r ffigurau ar y lefel hon, roedd y Grŵp yn gallu pwyso a mesur yr effaith ar gludiant a fydd yn deillio o'r argymhelliad ar y nifer o gyrsiau a gynigir yn y dyfodol fel rhan o arlwy cwricwlwm lleol. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am unrhyw wahaniaethau ledled Cymru.

Yn ôl ffigurau rhagamcanol, mae cynlluniau'r rhwydwaith rhanbarthol yn rhagweld lefel debyg o wariant ar gludiant er mwyn cefnogi dysgwyr sydd eisoes yn dilyn cyrsiau cydweithredol CA4 ac ôl-16 yn 2014-15. Roedd y Grŵp yn pryderu am y ddibyniaeth barhaus ar y grant am gostau cludiant ac am gyfran y cyllid sy'n cael ei defnyddio yn y maes hwn. Fodd bynnag, cydnabuwyd y dylai lleihau isafswm yr arlwy cydweithredol lleol ar gyfer dysgwyr arwain at lai o ddysgwyr yn teithio rhwng sefydliadau addysg er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol.

Nododd y Grŵp hefyd bod yna wahaniaethau rhanbarthol a lleol yn y modd y mae cyllid grant 14-19 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth cyrsiau a'r costau cludiant cysylltiedig. Nodwyd bod rhai ALlau wedi penderfynu defnyddio'r grant ar gyfer cludiant yn bennaf, tra bod eraill wedi canolbwyntio eu cyllid i fwy o raddau ar gostau cyrsiau. Nodwyd hefyd y byddai trefniadau ar gyfer cludiant cyhoeddus lleol yn cael effaith ar yr hyblygrwydd sydd ar gael i ALlau ac ysgolion wrth gynllunio eu cludiant. Fodd bynnag, roedd y Grŵp yn dal i gredu bod cyfleoedd ar gael i ardaloedd ALlau a rhanbarthau rannu arferion gorau ar gynllunio cludiant, ac y dylid bwrw ymlaen â gwaith pellach yn y cyswllt hwn er mwyn ceisio lleihau costau dros y flwyddyn sy'n dod.

> ***Argymhelliad 5***
> Dylid sicrhau dulliau mwy cyson rhwng ALlau a ledled rhanbarthau o ran sut y rheolir ac y cyllidir cludiant i fyfyrwyr cwricwlwm lleol yn ystod y diwrnod ysgol, gan gynnwys rhannu modelau arferion da gyda'r nod o leihau'r gwariant ar gludiant.

### *Dewisiadau heblaw teithio*

Yn ôl gwaith ymchwil BMG (adran 2.4) ar deithio gan ddysgwyr, roedd dros draean o'r rhai a ymatebodd i'r astudiaeth yn defnyddio dulliau amgen i deithio gan ddysgwyr yn arlwy'r cwricwlwm lleol. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys atebion amserlennu, Rhith-amgylchedd Dysgu, ac athrawon peripatetig. Nid oedd rhai ysgolion yn credu bod dulliau o'r fath yn atebion priodol, ond roedd eraill yn cydnabod yr angen i ystyried dewisiadau gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol ers i ragor o gyllid gael ei fuddsoddi mewn atebion TG a Rhith-amgylcheddau Dysgu, ac wrth i fwy o ysgolion gael profiad cadarnhaol o athrawon peripatetig (nododd 25% o ysgolion eu bod yn defnyddio dulliau o'r fath, er mwyn darparu rhwng 1 a 12 cwrs). Nododd y Grŵp mai un o'r rhesymau pam nad oedd rhai ysgolion wedi ystyried opsiynau o'r fath yn llawn oedd bodolaeth cyllid grant 14-19 ar gyfer teithio.

> ***Argymhelliad 6***
> Dylai ysgolion a cholegau wneud mwy o ddefnydd o atebion amserlennu, athrawon peripatetig, a rhith-amgylcheddau dysgu sy'n esblygu er mwyn gostwng costau teithio a chostau cysylltiedig dysgwyr.

## 3.6 Yr Adolygiad o Gymwysterau

Cafodd argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau eu hystyried gan y Grŵp yng nghyd-destun y goblygiadau a'r effaith bosibl ar gwricwla CA4 lleol.

Yn ôl y rheoliadau, mae gan ddysgwyr yr hawl i astudio cyfanswm o gyrsiau sy'n gyfwerth â 9 TGAU, er bod llawer o ysgolion yn caniatáu i'w dysgwyr ddewis mwy o bynciau TGAU neu gymwysterau cyfwerth. Ystyriodd y Grŵp ymarferoldeb rhai cyrsiau yn y dyfodol, gan benderfynu, faint bynnag o gyrsiau a gynigir gan ysgolion, y bydd disgwyl i'r rhan fwyaf o ddysgwyr astudio'r ddau gymhwyster TGAU Mathemateg newydd a'r CBC newydd o 2015 ymlaen (sy'n parhau i gael eu datblygu). O ganlyniad, mae'n debyg y bydd llai o ddewisiadau ar gael i ddysgwyr.

Yn ogystal, fel y nodwyd yn adran 2.4, bydd y pwyslais cynyddol ar bynciau craidd, trothwy'r L2 cynhwysol, a'r CBC hefyd yn cael effaith yng nghyd-destun cyfyngu ar ddewisiadau dysgwyr. O ystyried y ffaith mai'r CBC fydd y prif fesur perfformiad wrth symud ymlaen, roedd y Grŵp yn cydnabod y bydd llai o ysgogiad o bosibl i ysgolion gynnig detholiad eang o bynciau yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yn adran 2.4, un o argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau oedd yr angen i ddysgwyr ymgymryd â rhaglen dysgu ôl-16. Mewn datganiad yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad, croesawodd Colegau Cymru Raglenni Meysydd Dysgu ar gyfer addysg ôl-16, gan nodi bod colegau'n gweld manteision mewn cynnig rhaglen o ddysgu wedi'i phecynnu i ddysgwyr unigol, yn hytrach na'r dull presennol o gyllido amrywiaeth o gymwysterau unigol'[26].

### *Datblygu Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET)*

Ystyriodd y Grŵp argymhelliad yr Adolygiad o Gymwysterau y dylid mabwysiadu diffiniadau'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET).

Nododd y Grŵp bod polisi o ganiatáu cymwysterau IVET cyn 16 oed yn unig yn cael ei gyflwyno, yn rhannol oherwydd pryderon ymysg rhanddeiliaid bod cymwysterau a luniwyd ar gyfer grwpiau oedran a lleoliadau gwahanol yn cael eu darparu mewn ysgolion, gan arwain at y perygl o ailadrodd dysgu. Roedd y Grŵp hefyd yn pryderu y gallai llai o ddewis yn CA4, o safbwynt dewisiadau galwedigaethol yn bennaf, gyfyngu ar allu dysgwyr i symud ymlaen i ddewisiadau galwedigaethol ôl-16. O ganlyniad, roedd y Grŵp yn teimlo y byddai datblygu cymwysterau IVET mwy cyffredinol ar gyfer dysgwyr CA4 ar draws y 5 maes pwnc yn datblygu dealltwriaeth alwedigaethol a sgiliau ehangach er mwyn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i gymwysterau ôl-16. Mae yna fanteision eraill i ddatblygu cymwysterau IVET cyffredinol law yn llaw ag ystyried anghenion a blaenoriaethau sgiliau lleol a rhanbarthol wrth ddatblygu arlwy'r cwricwlwm lleol: o wneud hyn, byddai'r cymwysterau yn ategu mabwysiadu dull rhaglen o ddysgu ôl-16 ac yn rhoi cyfle i wella cydlyniad dros gyfnodau dysgu gwahanol.

Nododd y Grŵp bod y Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol yn y CBC diwygiedig yn debygol o gynnwys:

- Llythrennedd (Cyfathrebu)
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Datblygiad Personol
- Gweithio mewn Tîm
- Sgiliau Trefniadol

[26] Colegau Cymru Tachwedd 2012

- Meddwl a Datrys Problemau.

O ganlyniad, mae dysgwyr yn cael cyfle i ennill sgiliau cyffredinol sy'n berthnasol i swyddi y tu allan i'r pynciau y maent wedi'u dewis.

> ***Argymhelliad 7***
> Dylid datblygu cymwysterau IVET (L1 a L2) dwy haen alwedigaethol cyffredinol o fewn neu ar draws sectorau drwy'r fframwaith rhanddeiliaid Adolygiad o Gymwysterau ac mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr diwydiant a sefydliadau dyfarnu, er mwyn darparu sylfaen opsiynau ehangach ar gyfer IVET yn CA4 a hwyluso dilyniant yn well i ddysgu ôl-16 mewn cyd-destun galwedigaethol (CVET).

Roedd y Grŵp yn credu bod dulliau marchnata cymwysterau IVET yn arbennig o bwysig er mwyn helpu i newid canfyddiadau a'i gwneud yn glir nad ydynt yn arwain yn uniongyrchol at gymhwysedd galwedigaethol. Mae adran 2.4 yn cyfeirio at y ffaith fod arweiniad i rieni yn bwysig i ddysgwyr wrth ddewis cyrsiau ac, o ganlyniad, roedd y Grŵp yn credu ei bod yn bwysig ceisio hysbysu rhieni am y newidiadau arfaethedig i gyrsiau galwedigaethol yn CA4, ynghyd â chyfleu pwysigrwydd gwerth dysgu o'r fath fel llwybr i astudiaeth bellach a chyflogaeth.

> ***Argymhelliad 8***
> Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu ehangach o gwmpas newidiadau 14-19, gan gynnwys cysylltedd ar draws datblygiadau polisi eraill yr Adran Addysg a Sgiliau fel newidiadau i gymwysterau galwedigaethol, fel bod gan yr holl randdeiliaid ddealltwriaeth glir o'r synergeddau a'r rhyngweithio rhwng datblygiadau polisi addysgol cyfredol.

### *Y mater o gymhwysedd*

Wrth ystyried newidiadau i gymwysterau yn CA4, a'r pwyslais ar gymwysterau IVET na fyddent yn cynnwys elfennau sy'n seiliedig ar gymhwysedd fel arfer, roedd y Grŵp yn pryderu y gallai rhai elfennau dysgu penodol a hanfodol gael eu colli.

Nodwyd bod rhai cymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn hanfodol ar gyfer datblygiad dysgwyr yn CA4. Gallant hefyd gefnogi gweithgareddau rhan-amser neu brofiad gwaith dysgwyr yn y grŵp oedran hwnnw. Nododd y Grŵp bod tystysgrifau hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch sylfaenol yn enghreifftiau o gymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd a fyddai'n briodol ar gyfer dysgwyr CA4.

> ***Argymhelliad 9***
> Wrth ddatblygu'r dull IVET yn CA4, dylid cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y trefniadau categoreiddio cymwysterau er mwyn sicrhau bod cymwysterau priodol sy'n tystio i gymwyseddau cyffredinol (e.e. hylendid bwyd sylfaenol) yn gallu cael eu hastudio gan, a'u cyllido ar gyfer, dysgwyr CA4.

## 3.7 Effaith bosibl dileu cyllid 14–19 ar gynaliadwyedd

Ystyriodd y Grŵp y gyd-ddibyniaeth rhwng y grant 14-19 a dewis ehangach yn CA4, gan ddod i'r casgliad bod angen parhau i ddarparu cyllid o ryw fath, ond bod modd yn ymarferol ei leihau i lefel

fwy priodol o ystyried y ffrydiau ariannu sydd ar gael i ysgolion ers cyflwyno'r grant, y cyllid craidd i ysgolion drwy'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) a'r system ariannu ôl-16 newydd.

### *Newidiadau i gyllid 14-19*

Yn ôl tystiolaeth Estyn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobol Ifanc[27], nid oes gan ysgolion gynlluniau cynaliadwy bob amser i gyfrannu at gostau darparu cyrsiau galwedigaethol ychwanegol a'r cludiant cysylltiedig. Ar hyn o bryd, y grant 14-19 sy'n talu'r costau hyn gan amlaf, ac mae hyn yn creu amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd y ddarpariaeth gydweithredol bresennol os yw'r grant yn cael ei ostwng yn sylweddol neu'n dod i ben yn ddisymwth. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen rhoi trefniadau pontio ar waith i reoli unrhyw broses newid.

### *Darpariaeth cyfrwng Cymraeg*

Wrth drafod blaenoriaethau, argymhellodd y Grŵp y bydd angen cadw elfen wedi'i neilltuo o'r grant 14-19 i ariannu cyrsiau cyfrwng Cymraeg, a bydd angen amddiffyn darpariaeth deg (gweler adran 3.4).

### *Swyddogaeth yr anogwr dysgu*

Prif nodweddion swyddogaeth yr anogwr dysgu yw cynorthwyo pobl ifanc gyda'r canlynol: sgiliau astudio, dulliau dysgu, dymchwel rhwystrau i ddysgu, hwyluso dewis rhwng opsiynau a datrys problemau. Gall unigolyn neu dîm gyflawni swyddogaeth anogwr dysgu, a nododd y Grŵp bod amrywiaeth o fodelau ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru.

Pwysleisiodd y Grŵp bod swyddogaeth yr anogwr dysgu yn hynod bwysig i ddysgwyr, ond roedd yn credu bod cyfran y grant sy'n parhau i gael ei gwario ar annog dysgu yn gymharol uchel, o ystyried bod y swyddogaeth hon wedi'i hen sefydlu mewn ysgolion a cholegau bellach. O ganlyniad, awgrymodd y Grŵp bod yna botensial i wario llai o gyllid yn y maes hwn. Daeth i'r amlwg hefyd bod rhai ysgolion yn defnyddio eu Grantiau Amddifadedd Disgyblion presennol yn hytrach na'r grant 14-19 i ariannu gweithgarwch anogwyr dysgu, sy'n golygu nad oes cysondeb o ran dulliau ariannu yng Nghymru. Yn wir, nododd y Grŵp bod yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn uniongyrchol wedi esblygu'n sylweddol yn ystod cyfnod gweithredu'r grant 14-19, ac erbyn hyn roedd dirprwyo lleol i ysgolion wedi cynyddu er mwyn hwyluso'r hyblygrwydd hwn.

Teimlwyd bod yr arian sefydlu drwy'r grant 14-19 ers 2006 wedi llwyddo i sefydlu'r swyddogaeth mewn ysgolion a cholegau, ac na fyddai parhau i roi cyllid annibynnol ar gyfer darparu anogwyr dysgu yn briodol bellach ar gyfer yr hyn sydd wedi datblygu'n un o swyddogaethau craidd darparwyr. Nododd y Grŵp hefyd bod Estyn wrthi'n cynnal adolygiad ar gyfer Llywodraeth Cymru o'r gwasanaethau cymorth i ddysgwyr amrywiol sydd ar gael, gan gynnwys swyddogaeth anogwyr dysgu, ac y bydd yn adrodd yng ngwanwyn 2014 ar ganlyniad yr astudiaeth honno mewn ysgolion. Nodwyd y byddai'r astudiaeth hon yn bwysig wrth fwrw ymlaen â'r gwaith ar y cymorth amrywiol i ddysgwyr sydd ar gael yn lleol, a sut y gellir cydlynu cymorth o'r fath.

O ystyried pwysigrwydd swyddogaeth anogwyr dysgu ym marn y Grŵp, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi aelodau staff newydd barhau i fod yn rhan o'r cyllid 14-19 yn ystod 2014-15, a'i gydgysylltu â chyllid busnes 14-19 gan gonsortia rhanbarthol. Fodd bynnag, byddai'n well pe bai cyllidebau sy'n cael eu dirprwyo i ysgolion yn talu am y swyddogaeth hon. Yn sgil canfyddiadau Estyn yn ei adolygiad o wasanaethau cymorth i ddysgwyr yn ystod 2013/14, nododd y Grŵp y dylid adolygu'r trefniant hwn ar ôl 12 mis (wrth gynllunio cyllidebau 2015-16).

[27] Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 – Adroddiad

**Argymhelliad 10**
Er mwyn adlewyrchu esblygiad cyllidebau ysgolion ers cyflwyno grantiau 14-19, er enghraifft y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (SEG) neu'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG), dim ond y costau ar gyfer hyfforddi staff sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth anogwyr dysgu y dylid eu cynnal drwy'r cyllid 14-19. Dylid cysoni costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaeth anogwyr dysgu o fewn ffrydiau cyllid ehangach i ysgolion.

## Pontio i gyllid wedi'i gysoni

Nodwyd y gallai newidiadau mawr i'r ffordd y mae cyllid grant 14-19 yn cael ei ddosbarthu yn y tymor byr amharu ar gynllunio a darparu arlwy'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr. Roedd yn debygol y byddai angen trefniadau pontio, yn enwedig ar gyfer cymorth ariannol parhaus i ddysgwyr sydd eisoes wedi dechrau cyrsiau. Fodd bynnag, er mwyn lleihau costau gweinyddol a chyd-fynd yn well ag argymhellion yr adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, byddai angen cyflwyno trefniadau ariannu newydd drwy strwythurau ar lefel ranbarthol, ynghyd â chanllawiau cynllunio clir ar gyfer cynllunwyr cwricwlwm lleol.

**Argymhelliad 11**
Gan symud ymlaen, dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau pontio a fyddai'n symud tuag at gysoni'r grant 14-19 ar gyfer darpariaeth CA4 i ffrydiau cyllid eraill ar lefel ranbarthol, gan ystyried yr argymhellion o'r adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, a gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas â chostau gweinyddu oherwydd arbedion maint.

Oherwydd y system ariannu ôl-16 newydd, a fydd yn canolbwyntio'n awr ar Raglenni Meysydd Dysgu, roedd y Grŵp hefyd yn credu y byddai'r dull hwnnw yn fwy priodol ar gyfer ariannu darpariaeth cyrsiau ôl-16.

**Argymhelliad 12**
O ran dysgwyr ôl-16 sy'n dechrau rhaglenni astudio o fis Medi 2014 ymlaen, dylai'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gweithgareddau, gan gynnwys darpariaeth cyrsiau (sy'n cael cymhorthdal drwy'r grant 14-19 ar hyn o bryd) gael eu talu'n llwyr drwy'r system cyllido ôl-16 newydd.

## Lefelau ariannu yn y dyfodol

Bu'r Grŵp yn pwyso a mesur yn ofalus y lefelau cyllid gofynnol tebygol i sicrhau darpariaeth gynaliadwy, gan ystyried hefyd yr argymhelliad i leihau y cyrsiau a gynigir yn CA4 i'r isafswm cyfreithiol. Roedd yn amlwg i'r Grŵp bod angen adnoddau parhaus ar gyfer darpariaeth gydweithredol leol yn CA4 y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael drwy gyllid craidd ar gyfer ysgolion.

Yn nhermau darparu cyrsiau, nododd y Grŵp bod y grant 14-19 yn cefnogi opsiynau galwedigaethol yn bennaf, ac o ganlyniad, roedd y gostyngiad mewn adnoddau cyhoeddus yn fwy o fygythiad i gyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, cytunodd y Grŵp y dylid rhoi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen ar gyfer plant, ac roedd cynnig profiadau galwedigaethol i bobl ifanc 14-16 oed yn rhan allweddol o hyn.

Nodwyd hefyd y lefel uchel o weithgarwch a ariennir ar hyn o bryd drwy'r adnoddau 14-19 yn ymwneud â chael dysgwyr i ymgysylltu â'r system addysg cyn 16 ac ôl-16, a phwysigrwydd systemau cymorth sy'n galluogi dysgwyr i aros mewn addysg prif ffrwd ac osgoi troi'n bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd gwaith cymorth y rhwydweithiau 14-19 yn

bwysig yn y cyswllt hwn, ac roedd yn bwysig peidio â cholli'r maes gweithgarwch hwn wrth bontio i'r trefniadau newydd. Yn wir, roedd y Grŵp yn cadw'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid mewn cof, a'r angen i'r agenda 14-19 gyfrannu at y gwaith o weithredu'r Fframwaith dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd y Grŵp yn cydnabod bod angen amddiffyn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn dilyn cyrsiau 2 flynedd yn bennaf drwy drefniadau cydweithredol lleol. O ganlyniad, byddai angen rhoi trefniadau pontio ar waith a'u cyllido'n llawn fel bod y myfyrwyr hynny yn gallu cwblhau eu hastudiaethau.

Wrth ystyried y gofynion tebygol ar gyfer ariannu'r maes hwn yn y dyfodol, aeth y Grŵp ati i ddadansoddi'r ddarpariaeth gyfredol a sut y byddai argymhellion amrywiol yr adroddiad hwn yn effeithio arni: lleihau gwariant ar gludiant; gostyngiadau pro rata yng ngweinyddiaeth grantiau drwy gysoni; defnyddio cyllidebau ysgol gwahanol i ariannu anogwyr dysgu; a chyd-fynd â'r system ariannu ôl-16 newydd ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau cyrsiau o fis Medi 2014 ymlaen. Gan ystyried datblygiadau o'r fath, roedd y Grŵp yn credu y gellid ac y dylid mabwysiadu dull gweithredu 2 gam o safbwynt lefelau isafswm cyllid er mwyn amddiffyn darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn dilyn cyrsiau.

***Argymhelliad 13***
Dylai trefniadau pontio a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer 2014-14 i sicrhau bod y newidiadau i bolisi a threfniadau 14-19 yn cael eu gweithredu, tra'n amddiffyn darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny sydd eisoes yn cyflawni cyrsiau, gydag isafswm cyllid o £10 miliwn. Ar gyfer 2015-16 a thu hwnt, gellid pennu £8 miliwn fel yr isafswm cyllid wrth i drefniadau newydd wedi'u cysoni gael eu rhoi ar waith.

## 3.8 Safbwyntiau dysgwyr

Nododd y Grŵp ganfyddiadau BMG a chanlyniadau tebyg arolygon o safbwyntiau dysgwyr a gyflwynwyd gan gydgysylltwyr y rhwydwaith, a'r cyfyngiadau ar gwmpas yr arolygon hyn. Nodwyd bod aelodau'r teulu neu athrawon yn dylanwadu ar y rhan fwyaf o ddysgwyr wrth ddewis pynciau yn CA4, a bod dysgwyr yn dibynnu llai ar ffynonellau mwy gwybodus a/neu ddiduedd fel Gyrfa Cymru. O ganlyniad, roedd y Grŵp o'r farn y dylid ystyried rhieni yn rhanddeiliaid allweddol wrth ddarparu cwricwlwm lleol yn CA4, sy'n ategu'r angen am strategaeth gyfathrebu eang, yn unol â'r argymhelliad yn adran 3.5.

Roedd 61% o'r sampl o ddysgwyr yn dweud eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon â'r dewisiadau sydd ar gael. Er nad yw'r ganran hon yn isel, roedd y Grŵp yn credu y byddai lefelau boddhad yn cynyddu yn y dyfodol pe bai mwy o ddysgwyr yn gallu astudio'r cyfuniad o bynciau a ddewiswyd ganddynt, neu'n teimlo'n fwy o ran o'r broses ddewis. Roedd y Grŵp yn credu y dylai lleihau isafswm y cyrsiau a gynigir i 25 a chyflwyno cymwysterau IVET cyffredinol yn CA4, yn unol ag argymhellion 3.2 a 3.5, alluogi ysgolion i ddatblygu system golofn fwy hygyrch i helpu i hwyluso hyn.

Un o negeseuon clir y dystiolaeth amrywiol ar safbwyntiau dysgwyr yw'r ffaith fod cyrsiau galwedigaethol yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried yn fuddiol yn gyffredinol.

## 3.9 Cydweithredu rhanbarthol

Cytunodd y Grŵp mai cydgysylltwyr ar lefel ranbarthol a ddylai fod yn gyfrifol am gefnogi a herio ansawdd arlwy'r cwricwlwm lleol (a chymryd camau dilynol gydag ysgolion os oes angen).

Ar y cyd ag argymhellion yr adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, gwelwyd bod cyfle i'r haen ranbarthol wneud mwy i sicrhau dull gweithredu strategol ym maes darpariaeth 14-19, a chynnig rhywfaint o her a chymorth fel bod cynllunwyr lleol mewn ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn gallu gwneud hynny. Byddai

swyddogaeth o'r fath yn golygu bod angen i gydgysylltwyr rhanbarthol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, ddatblygu'r swyddogaethau presennol yn gyflym er mwyn asesu arlwy cwricwlwm lleol arfaethedig, monitro perfformiad ysgolion o ran bodloni telerau'r Mesur, a pharhau i helpu i weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Wrth wneud hyn, byddai cydgysylltwyr eisiau sicrhau bod y cynlluniau yn diwallu anghenion cyflogaeth a sgiliau'r ardal leol, bod anghysondebau lleol yn ymwneud â phrisiau cyrsiau (er enghraifft) yn cael eu dileu, bod y defnydd gorau yn parhau i gael ei wneud o drefniadau cydweithredol lleol, bod yr arlwy yn parhau i ymgysylltu â dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf tebygol o droi'n bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a bod y cynigion ar gyfer darparu dysgu yn gost-effeithiol ac yn osgoi dyblygu.

Roedd y Grŵp hefyd yn teimlo y dylai cydgysylltwyr rhanbarthol geisio cysoni swyddogaethau, systemau a phrosesau ledled y 4 rhanbarth, a darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion sydd â'r angen mwyaf. Credai'r Grŵp y byddai'r swyddogaeth hon yn ategu'r gwaith o reoli ffrydiau ariannu wedi'u cysoni'n fwy i ysgolion drwy'r strwythur rhanbarthol.

***Argymhelliad 14***

Llywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chydgysylltwyr rhwydweithiau rhanbarthol ac arweinwyr consortia yn ystod y 12 mis nesaf i ddatblygu rôl y rhanbarthau o ran rheoli darpariaeth 14-19 a chyllid cysylltiedig mewn ffordd fwy cadarn a chyson, gan gynnwys paratoi canllawiau 14-19 clir diwygiedig ar gyfer rhanddeiliaid.

# Atodiad A: Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

| Sector | Enw | Rôl |
|---|---|---|
| Ysgolion cyfrwng Saesneg | Claire Armitstead (Cadeirydd) | Pennaeth, Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| Ysgolion cyfrwng Cymraeg | Owain ap Dafydd | Pennaeth, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni |
| Ysgolion dwyieithog | Brian Jones | Pennaeth, Ysgol David Hughes |
| Darparwyr hyfforddiant | Berni Tyler<br>*yn lle*<br>Shirley Davis-Fox | Cyfarwyddwr Gweithrediadau, ISA Training<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr, ISA Training |
| Gyrfa Cymru | Del Thomas | Rheolwr Polisi |
| Cyflogwyr | Roy Jones MBE | Rheolwr Cymunedol, ScottishPower Ltd. |
| Awdurdodau Lleol | Karen Evans | Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant |
| Colegau AB | Guy Lacey<br>*yn lle*<br>Nicola Gamlin | Dirprwy Brifathro, Coleg Gwent<br><br>Is-brifathro (Cwricwlwm ac Ansawdd), Coleg Gwent |

**Arsylwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Estyn | Catherine Evans | Arolygydd Arweiniol ar gyfer y Sector Uwchradd |
| Estyn | Sue Halliwell | Arolygydd Arweiniol ar gyfer 14-19 / Lles |


## Atodiad B: Geirfa

| | |
|---|---|
| Grant 14-19 | Grant annibynnol Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol i gefnogi polisi Llwybrau Dysgu 14-19 a Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. |
| Gyrfa Cymru | Mae Gyrfa Cymru yn is-gorff sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i ddysgwyr. |
| Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET) | Diffinnir CVET fel addysg neu hyfforddiant ar ôl addysg a hyfforddiant cychwynnol – neu ar ôl ymuno â byd gwaith. |
| DfES | Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg | Mae'r Dirprwy Weinidog yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn cynorthwyo'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, gyda chyfrifoldebau arbennig am sgiliau a thechnoleg. |
| Meysydd | Mae cymwysterau'n cael eu grwpio i 5 maes pwnc a elwir yn feysydd, sef:<br>Maes A: Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg;<br>Maes B: Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith;<br>Maes C: Gwasanaethau i Bobl;<br>Maes D: Y Celfyddydau Creadigol, y Cyfryngau, Diwylliant ac Iaith;<br>Maes E: Y Dyniaethau a Gwasanaethau Cymdeithasol a Pharatoi ar gyfer Bywyd/Gwaith. |
| Estyn | Yr arolygiaeth addysgol yng Nghymru |
| Prydau Ysgol am Ddim (FSM) | Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim |
| Cyffredinol | Mae cyrsiau cyffredinol yn cynnwys ystod eang o bynciau cyffredinol nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â maes swyddi, fel TGAU. |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd. |
| Grŵp | Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen |
| Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET) | Diffinnir IVET fel addysg a hyfforddiant cyffredinol neu alwedigaethol a gyflawnir yn y system addysg gychwynnol, fel arfer cyn ymuno â byd gwaith, nad yw'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. |
| KAS | Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am ymchwil ac ystadegau'r llywodraeth. |
| Cyfnod Allweddol 4 (CA4) | Cymhwysir y Cwricwlwm Cenedlaethol i 4 cyfnod allweddol o ddatblygiad disgyblion ac mae CA4 wedi'i lunio ar gyfer disgyblion 14-16 oed. |
| L2 Cynhwysol | Un o'r prif ddangosyddion perfformiad.  Mae'r trothwy L2 Cynhwysol yn gyfwerth â 5 A* i C TGAU, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg – gan gynnwys galwedigaethol |
| Rhaglenni Meysydd | Bydd Rhaglenni Meysydd Dysgu, yn hytrach na chymwysterau |

| | |
|---|---|
| Dysgu | unigol, wrth wraidd y system cyllido ôl-16 newydd. |
| Anogwr Dysgu | Mae nodweddion allweddol yr anogwr dysgu'n cynnwys: dymchwel rhwystrau i ddysgu a chynorthwyo myfyrwyr 14-19 oed i ddatblygu sgiliau astudio priodol. |
| LMI | Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. |
| Awdurdodau Lleol (ALlau) | Y 22 awdurdod unedol yng Nghymru. |
| Cwricwlwm Lleol | Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sefydlu cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr yn CA4. |
| Mesur | Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. |
| Y Gweinidog Addysg a Sgiliau | Gweinidog Cymru sydd â chyfrifoldeb am addysg yng Nghymru, rhan o Gabinet Llywodraeth Cymru. |
| CCC | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. |
| Cydgysylltwyr Rhwydwaith | Cydgysylltwyr rhwydwaith 14-19 mewn Awdurdodau Lleol ac ar y lefel ranbarthol. |
| NQF | Mae gan gymwysterau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel o lefel mynediad i lefel 8. Gall cymwysterau ar yr un lefel fod yn wahanol iawn o ran cynnwys a'r amser y maent yn ei gymryd i'w cwblhau. |
| PDG | Y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (SEG) a'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) yw prif ddulliau Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer ysgolion:<br>• gwella safonau mewn llythrennedd;<br>• gwella safonau rhifedd, a<br>• lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol<br><br>Defnyddir PDG ar gyfer ymyriadau a dargedir i gynorthwyo disgyblion o ardaloedd difreintiedig ac nid ar gyfer camau gweithredu mwy cyffredinol y gellid eu hystyried o dan SEG. |
| System Cyllido Ôl-16 | Yn dilyn yr Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16, a oedd yn canolbwyntio ar weithredu'r system newydd, mae system cynllunio a chyllido newydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15. |
| FfCCh | Mae tri gwahanol fath o gymwysterau yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh): Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma. Bydd teitl cymhwyster yn dweud wrthych beth yw ei faint a'i lefel (amrywio o lefel mynediad i lefel 8). |
| Adolygiad o Gymwysterau (RoQ) | Cynhaliwyd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Myfyrwyr 14-19 oed yng Nghymru rhwng mis Medi 2011 a mis Tachwedd 2012. Y nodau allweddol oedd nodi'r cymwysterau sydd fwyaf perthnasol a hefyd ystyried materion sy'n ymwneud ag asesu a mesur perfformiad. Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddwyd fod Llywodraeth Cymru yn derbyn holl argymhellion yr Adolygiad yn fras. |
| Grant Cynnal | Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu cyllid ar ffurf Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol drwy ddefnyddio fformiwla y cytunir |

| | |
|---|---|
| Refeniw (RSG) | arno’n gyffredin. Awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am benderfynu sut maent yn gwario eu dyraniad o’r Grant Cynnal Refeniw ar y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, sy’n cynnwys ysgolion. |
| SEG | Mae Llywodraeth Cymru’n darparu cyllid Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (SEG) i wella safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyflawniadau addysgol ym mhob ysgol. |
| Hyfforddiant | Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, mae hyfforddiant yn cynnwys: pobl ar leoliadau dysgu seiliedig ar waith a phobl nad ydynt wedi cofrestru ar gwrs addysg ond sydd wedi cyflawni hyfforddiant cysylltiedig â gwaith o ffwrdd o’r gweithle yn y pedair wythnos flaenorol. |
| Agenda Trawsnewid | Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Trawsnewid Addysgol yn ceisio moderneiddio a rhesymoli addysg. Drwy’r Rhaglen Trawsnewid Pob Oedran, mae Llywodraeth Cymru’n ymrwymedig i ddatblygu a gweithredu gwell system addysg a hyfforddiant. |
| Galwedigaethol | Mae cyrsiau galwedigaethol yn cynnig dysgu mwy ymarferol sydd â phwyslais ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ymarferol sy’n ymwneud yn uniongyrchol â swyddi neu sectorau penodol. |
| VLE | Rhith-amgylcheddau Dysgu. |
| Bagloriaeth Cymru (CBC) | Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi’i gymeradwyo’n genedlaethol ac yn cael ei gynnig ar hyn o bryd ar lefelau Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Mae grŵp llywio a nifer o weithgorau’n gweithio ar Fagloriaeth Cymru ddiwygiedig i’w chyflwyno o fis Medi 2015 ymlaen. |
| Llywodraeth Cymru | Llywodraeth etholedig Cymru. |

## Atodiad C: Crynodeb o ariannu yn ôl math o weithgaredd drwy'r grant 14–19 ar gyfer 2013–14



# Atodiad D: Cysylltiadau 14–19 ar draws meysydd polisi

